

Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 37/2026

Dyddiad cyhoeddi: 25/03/2026

Adolygiad o Siarter y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a'r Nod Barcud dros Blant a Phobl Ifanc

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-406-8

Adolygiad o Siarter y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a'r Nod Barcud
dros Blant a Phobl Ifanc.

Awduron: Gabriela Freitas, Sophie Hayes, Laurie Day



Adroddiad Ymchwil Llawn: Freitas, G., Hayes, S., and Day L. (2026).
Adolygiad o Siarter y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a'r Nod Barcud
dros Blant a Phobl Ifanc. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR
rhif 37/2026.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil>

Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â

Bethan Porter

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: YmchwilCyfiawnderCymdeithasol@llyw.cymru

Rhestr o'r cynnwys

Geirfa.....	3
1. Cyflwyniad a chefnidir	4
1.1. Cyd-destun polisi cefndirol.....	4
1.2. Y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.....	5
1.3. Amcanion yr adolygiad	5
2. Methodoleg	7
2.1 Camau a thasgau	7
Cam 1: Dechrau a chwmpasu	7
Cam 2: Adolygiad o dystiolaeth	7
Cam 3: Ymchwil ansoddol	7
Cyfnod 4: Dadansoddi ac adrodd	8
2.2. Recriwtio cyfranogwyr ac ystyriaethau moesegol.....	8
2.3 Casglu, rheoli a dadansoddi data.....	8
2.4 Ystyriaethau data	8
3. Canfyddiadau o'r adolygiad tystiolaeth.....	10
3.1 Trosolwg o gynlluniau.....	10
3.1.1 Modelau o gynlluniau achredu a siarteri	10
3.1.2 Nodweddion cynlluniau achredu a dyfarniadau	11
3.2 Gwersi a ddysgwyd o'r llenyddiaeth	12
3.2.1 Prif ffrydio dulliau sy'n seiliedig ar hawliau plant.....	12
3.2.2 Gwersi a ddysgwyd o sectorau eraill	12
3.2.3 Hyfforddiant, arweiniad, cefnogaeth	13
3.2.4 Hyrwyddo cynlluniau achredu a siarteri	13
3.2.5 Cymhelliant a chefnogaeth	14
3.3 Arfer gorau a chasgliadau	15
4. Canfyddiadau o adolygiad Siarter yr NPS a'r Nod Barcud	17
4.1 Ymwybyddiaeth a gwybodaeth am yr NPS	17
4.1.1 Ymwybyddiaeth a chyfathrebu	17
4.1.2 Barn ar y 7 NPS.....	17
4.1.3 Barn ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol	18
4.2 Ymgorffori'r NPS	18
4.2.1 Monitro'r NPS	19

4.2.2	Barn ar brif ffrydio ar draws sefydliadau	20
4.2.3	Rôl yr NPS wrth wella cyfranogiad plant a phobl ifanc	21
4.3	Siarter yr NPS a'r Nod Barcud.....	21
4.3.1	Cymhellion ac ymuno	22
4.3.2	Gofynion	23
4.3.3	Gwerth y Siarter a'r Nod Barcud.....	24
4.4	Cryfhau Siarter yr NPS a'r Nod Barcud	25
4.4.1	Gwella hyrwyddo a negeseuon	25
4.4.2	Canllawiau, cefnogaeth a hyfforddiant.....	26
4.4.3	Ystyriaethau ar gyfer rôl yr Arolygwyr Ifanc.....	27
4.4.4	Offer a dulliau eraill.....	28
5.	Casgliadau	30
	Atodiad A: Fframwaith dadansoddol	1
	Atodiad B: Protocol adolygu tystiolaeth.....	1
	Atodiad C: Cynlluniau enghreifftiol a gwledydd cyfatebol.....	3
	Atodiad D: Offer casglu data (yn Saesneg).....	4
	Atodiad E: Llyfryddiaeth	20

Geirfa

Grŵp Cyngori ar Hawliau Plant (CRAG)

Mae CRAG yn gorff arbenigol sy'n cynghori Llywodraeth Cymru. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru, UNICEF y DU ac Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc.

Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol (NPS)

Mae'r NPS yn set o 7 safon a ddefnyddir i gefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ymgorffori arfer da o amgylch cyfranogiad.

Swyddfa Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (OPCC)

Y swyddfa sy'n cefnogi Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau i oruchwylio plismona a sicrhau diogelwch cymunedol.

Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC)

Partneriaeth o gyrff cyhoeddus lleol sy'n cydweithio i wella llesiant pobl mewn ardal benodol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Asesiad Tystiolaeth Cyflym (ATC)

Dull symlach ac amser-gyfngedig o adolygu ymchwil bresennol i gynhyrchu crynodeb cytbwys a dibynadwy o dystiolaeth yn gyflymach nag adolygiad systematig llawn.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh)

Bwrdd statudol sy'n dwyn ynghyd awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a phartneriaid eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig o fewn rhanbarthau ledled Cymru.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Cytuniad rhyngwladol sy'n nodi'r hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y mae gan bob plentyn hawl iddynt, ac sy'n ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau amddiffyn a chynnal yr hawliau hynny. Mae'n cwmpasu 54 o erthyglau sy'n ymdrin â phob agwedd ar fywydau plant, gan gynnwys Erthygl 12 sy'n nodi bod gan bob plentyn hawl i gael ei glywed.

Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP)

Sefydliadau rhanbarthol sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau gofal iechyd y GIG yng Nghymru.

1. Cyflwyniad a chefnidir

Ym mis Gorffennaf 2025, comisiynodd Llywodraeth Cymru Ecorys UK i gynnal adolygiad i ddeall faint o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n ymuno ac yn gweithredu Siarter a Nod Barcud y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol (NPS). Adeiladodd hyn ar waith ymchwil paratoadol a wnaed gan Lywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Plant yng Nghymru, yn 2024. Cynhaliwyd yr adolygiad rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2025 ac roedd yn cynnwys ymchwil desg ac ymchwil rhanddeiliaid. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau a'r casgliadau drafft o'r adolygiad.

1.1. Cyd-destun polisi cefndirol

Llywodraeth Cymru oedd y genedl gyntaf yn y DU i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mewn cyfraith ddomestig drwy'r [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\), 2011](#). Mae hyn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a chyfrifoldeb i sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru yn ymwybodol o'u hawliau. Mae'r [Cynllun Hawliau Plant 2021](#), yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswyddau o dan y Mesur, gan gynnwys cyfranogiad plant mewn gwneud penderfyniadau sy'n rhoi Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar waith. Mae'n nodi bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i fynegi eu barn ac i gael eu barn wedi'i chymryd o ddifrif pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud a allai effeithio arnyn nhw.

Ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, mae rhanddeiliaid eraill sy'n hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru. Maent yn cynnwys:

- [Plant yng Nghymru](#), corff ymbarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a Chymru. Maent yn arwain ar fentrau a ariennir gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys gweithredu Siarter a Nod Barcud NPS, a Chymru Ifanc, corff cyfranogiad cynrychioliadol sy'n cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi.
- [Comisiynydd Plant Cymru](#), sefydliad hawliau dynol annibynnol sydd â'r rôl o hyrwyddo a diogelu hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae [strategaeth tair blynedd \(2023-2026\)](#) y Comisiynydd yn amlinellu blaenoriaethau strategol allweddol sy'n cael eu hategu gan y CCUHP gan gynnwys grymuso plant a phobl ifanc, eiriol dros hawliau plant, a chwyddo lleisiau plant. 'Y Ffordd Gywir' yw fframwaith egwyddorol ar gyfer mabwysiadu dull hawliau plant a ddatblygwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru ac [Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol](#). Un o'r pum egwyddor yw cyfranogiad. Nod Y Ffordd Gywir yw cefnogi cyrff cyhoeddus i integreiddio hawliau plant i wneud penderfyniadau, polisi ac arfer.
- Mae [Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol](#) yn ganolfan ymchwil sydd wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Abertawe. Maent yn gweithio ar y cyd â phartneriaid i ddylanwadu ar bolisi ac arfer yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae'r Arsyllfa'n chwarae rhan allweddol yn cefnogi gweithredu'r CCUHP yng Nghymru, gan gynnwys cefnogi cyrff cyhoeddus i ymgorffori hawliau plant mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

1.2. Y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol

Cafodd y [Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol](#) (NPS) eu datblygu yn 2007. Dyma set o 7 safon a ddefnyddir i gefnogi sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc i ymgorffori arfer da o amgylch cyfranogiad. Diweddarwyd y safonau yn 2017 i adlewyrchu dull cryfach sy'n seiliedig ar hawliau. Cafodd y safonau wedi'u diweddarau eu cyd-gynhyrchu gyda phlant a phobl ifanc.

Mae gan bob un o'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru fandad i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, a'r rhai a osodwyd arnynt yn [Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#), disgwylir i awdurdodau lleol 'weithio gyda phartneriaid perthnasol i fabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol'. Anogir sefydliadau eraill ar draws y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yng Nghymru sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc i fabwysiadu ac ymgorffori'r NPS yn eu hymarfer hefyd. Mae'r Safonau wedi'u hadlewyrchu ymhellach mewn nifer o bolisïau Llywodraeth Cymru ac wedi'u hymgorffori yn Y Ffordd Gywir Comisiynydd Plant Cymru.

Gan ffurfio ffocws yr astudiaeth gyfredol, sefydlwyd Siarter yr NPS a'r Nod Barcud fel offer i gefnogi gweithredu'r safonau yng Nghymru. Yn benodol:

- Sefydlwyd Siarter yr NPS (a sefydlwyd yn 2019) ar gyfer sefydliadau sy'n bwriadu mabwysiadu'r NPS i ddangos eu hymrwymiad i'r safonau'n wirfoddol dros gyfnod o 2 flynedd. Mae'r broses ymgeisio am y Siarter yn cynnwys cyflwyno datganiad yn amlinellu cyflawniad y sefydliad yn erbyn y safonau. Er y gall sefydliadau ail-ymgeisio i'r Siarter, fe'u hanogir i weithio tuag at gyflawni Nod Barcud yr NPS.
- Mae Nod Barcud yr NPS (a sefydlwyd yn 2017) yn dystysgrif, sy'n ddilys am 4 blynedd, a ddyfernir i sefydliadau sydd wedi llwyddo i ymgorffori'r 7 safon yn eu harfer. I gyflawni'r Nod Barcud, rhaid i sefydliadau gynnal hunanasesiad, gan gynnwys darparu tystiolaeth o weithredu'r safonau'n effeithiol. Yna caiff sefydliadau eu harolygu'n allanol gan grŵp o blant a phobl ifanc o'r enw Arolygwyr Ifanc, sy'n cael eu recriwtio a'u hyfforddi i adolygu ac asesu sefydliadau.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Plant yng Nghymru i reoli gweithrediad Siarter yr NPS a'r Nod Barcud, gan gynnwys yr Arolygwyr Ifanc. Dylid nodi bod y broses Nod Barcud wedi'i hoedi ers 2023, tra bod adolygiad i ddeall faint o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n ymuno â Siarter yr NPS a'r Nod Barcud ac yn eu gweithredu yn cael ei gwblhau.

1.3. Amcanion yr adolygiad

Y pwrpas oedd deall y rhwystrau y mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu wrth geisio am gynlluniau Siarter yr NPS a'r Nod Barcud, yn dilyn gwaith paratoadol a wnaed gan Lywodraeth Cymru a Phlant yng Nghymru a ganfu fod y nifer sy'n ymuno â'r cynlluniau ymhlith y sector cyhoeddus yng Nghymru yn isel. Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn ceisio llywio proses gwneud penderfyniadau Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch dyfodol cynlluniau Siarter yr NPS a'r Nod Barcud.

Yn benodol, y ddau brif nod oedd:

Nod 1: Adolygu tystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd siarteri, cynlluniau achredu a dyfarniadau wrth gefnogi sefydliadau i ymgorffori dulliau cenedlaethol yn ymarferol. Bydd yr agwedd hon ar yr ymchwil yn syntheseiddio llenyddiaeth allweddol i ddeall nodweddion y dulliau mwyaf effeithiol ar gyfer y sector cyhoeddus.

Nod 2: Ymgymryd â dulliau ymchwil ansoddol gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc er mwyn deall:

- y rhwystrau sy'n atal sefydliadau rhag mabwysiadu Siarter yr NPS a'r Nod Barcud, gan atal defnydd o'r cynlluniau
- i ba raddau y mae'r Siarter a'r Nod Barcud yn cefnogi sefydliadau i gyflawni ac ymgorffori'r NPS
- y rhesymau pam mae rhai sefydliadau wedi dewis fframweithiau neu fodelau amgen i hyrwyddo cyfranogiad.

Roedd y pedwar amcan ymchwil yn cynnwys:

Amcan un: Asesu'r dystiolaeth o adolygiad systematig desg o ddulliau cenedlaethol a rhyngwladol sy'n cefnogi sefydliadau'r sector cyhoeddus i ymgorffori a chyflwyno arfer o safon ar lefel genedlaethol. Dylai'r adolygiad ddilyn methodoleg gadarn i gasglu tystiolaeth o 'beth sy'n gweithio' ar gyfer dulliau presennol. Dylid adolygu tystiolaeth o ystod o sectorau gwasanaethau cyhoeddus ac nid ei gyfyngu i gyfranogiad plant a phobl ifanc.

Amcan dau: Defnyddio dulliau ymchwil ansoddol i gasglu barn gweithwyr sefydliadau sector cyhoeddus Cymru ynghylch y Siarter a'r Nod Barcud. Dylai'r unigolion hyn gynrychioli sefydliadau y disgwylir iddynt hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc ond sydd wedi ymgysylltu â'r Siarter a'r Nod Barcud ar wahanol lefelau. Dylai'r ymchwil gynnwys sefydliadau sydd:

- wedi mabwysiadu y Siarter ac ennill y dyfarniad Nod Barcud
- wedi mabwysiadu'r Siarter heb wneud cais am y Nod Barcud
- heb fabwysiadu'r Siarter na'r Nod Barcud.

Dylai'r dulliau a ddefnyddir:

- asesu ymwybyddiaeth a gwybodaeth y sector cyhoeddus am yr NPS a'r graddau y cânt eu cymhwyso'n ymarferol
- archwilio'r rhwystrau sy'n dylanwadu ar benderfyniad sefydliad i beidio â mabwysiadu'r Nod Barcud neu'r Siarter a'u rhesymau dros fabwysiadu fframweithiau neu fodelau amgen
- deall y ffyrdd y mae'r Nod Barcud a/neu'r Siarter yn cefnogi sefydliadau i hyrwyddo ac ymgorffori'r NPS ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu gwasanaethau a'u harferion
- nodi'r galluogwyr a'r rhwystrau sy'n bodoli i sefydliadau sydd wedi mabwysiadu'r Siarter a'r Nod Barcud.

Amcan tri: Ymgymryd â dadansoddiad gwrthrychol o ganlyniadau'r adolygiad desg a'r gwaith maes ansoddol er mwyn cynhyrchu adroddiad thematig cyfun sy'n cyfleu'r canfyddiadau, gan gynnwys crynodeb o'r canfyddiadau rhagarweiniol.

Amcan pedwar: Crynhoi'r canfyddiadau a defnyddio'r rhain i ddod i gasgliadau i lywio penderfyniadau polisi ar gyfeiriad Siarter yr NPS a'r Nod Barcud yn y dyfodol.

2. Methodoleg

Strwythurwyd yr adolygiad hwn mewn pedwar cam, yn cynnwys ystod o dasgau a gweithgareddau ymchwil. Gweler Atodiad A am y fframwaith dadansoddol. Amlinellir y pedwar cam isod.

2.1 Camau a thasgau

Cam 1: Dechrau a chwmpasu

Yn dilyn cyfarfod cychwynnol gyda Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd cyfweiliadau cwmpasu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o CRAG, Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan (AWPWN), Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a Phlant yng Nghymru i sefydlu'r cyd-destun strategol ar gyfer hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc yng Nghymru, rôl ac effeithiolrwydd Siarter yr NPS a'r Nod Barcud, galluogwyr a rhwystrau i ymuno â Siarter yr NPS a'r Nod Barcud, a safbwyntiau ar opsiynau a blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer cefnogi gweithredu'r NPS. Cafodd canllawiau pynciau cyfweiliadau eu teilwra i adlewyrchu gwybodaeth ac arbenigedd penodol y rhanddeiliaid allweddol a gyfwelwyd.

Cam 2: Adolygiad o dystiolaeth

Darparodd yr adolygiad asesiad o'r dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol o ran yr hyn sy'n gweithio i gefnogi sefydliadau'r sector cyhoeddus i gyflawni ac ymgorffori arfer o safon ar lefel genedlaethol, i nodi nodweddion effeithiol, sut mae sefydliadau wedi goresgyn unrhyw rhwystrau, a pha ganlyniadau sy'n cael eu cofnodi a'u hasesu. Mabwysiadwyd dull systematig, gan barchu egwyddorion Asesiad Tystiolaeth Cyflym (ATC). Mae Atodiad B yn rhoi trosolwg o'r protocol adolygu tystiolaeth a ddefnyddiodd y tîm ymchwil i lywio eu meini prawf chwilio, sgrinio a dethol.

Cam 3: Ymchwil ansoddol

Cynhaliodd y tîm ymchwil eu hymchwil ansoddol gydag amrywiaeth o rhanddeiliaid o sefydliadau'r sector cyhoeddus, gyda ffocws pennaf ar gynrychiolwyr o Wasanaethau Plant neu Wasanaethau Ieuencid. Archwiliodd cyfweiliadau lled-strwythuredig gyfleoedd a rhwystrau allweddol sy'n wynebu sefydliadau o ran mabwysiadu Siarter yr NPS a'r Nod Barcud a'r defnydd o'r cynlluniau, a dulliau amgen o hyrwyddo ac ymgorffori cyfranogiad plant a phobl ifanc. Cyflawnwyd y sampl ymchwil ansoddol ganlynol:

- Cyfweiliadau cwmpasu (Cam 1) = Cynhaliodd yr ymchwilwyr gyfweiliadau (n=5) gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o CRAG, AWPWN, a Phlant yng Nghymru.

- Cyfweiliadau rhanddeiliaid gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus (Cam 3) = Cynhaliodd y tîm ymchwil gyfanswm o 21 o gyfweiliadau gydag Awdurdodau Lleol (n=18), Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (n=2), a Byrddau Iechyd Prifysgol (n=1).

Cyfnod 4: Dadansoddi ac adrodd

Crynowyd data cyfweiliadau a'i ysgrifennu mewn fframwaith ar gyfer categorïddio a chodio data ymhellach, yn dilyn chwe cham o ddadansoddiad thematig o ymgyswrtio â data [Braun a Clarke \(2020\)](#). Datblygodd a rhannodd y tîm gwerthuso ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg drwy gyfres o sleidiau a adroddwyd i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2025.

2.2. Recriwtio cyfranogwyr ac ystyriaethau moesegol

Darperir copiâu o ddeunyddiau casglu data yn Atodiad D. Cafodd yr holl ddeunyddiau ymchwil i'w defnyddio gyda rhanddeiliaid eu cyfieithu'n broffesiynol i'r Gymraeg ar ôl i'r fersiynau terfynol gael eu cytuno â Llywodraeth Cymru. Cynigiwyd yr holl gyfweiliadau ansoddol yn Saesneg ac yn Gymraeg. Dewisodd un cyfranogwr ymchwil gwblhau ei gyfweiliad yn y Gymraeg.

Arweiniodd y tîm ymchwil weithgareddau recriwtio, yn cynnwys e-bost cychwynnol yn gwahodd cyfranogwyr posibl i gymryd rhan mewn cyfweiliad a hyd at dri e-bost atgoffa. Cefnogwyd Llywodraeth Cymru drwy ddarparu manylion cyswllt cychwynnol i randdeiliaid. Anfonwyd taflenni gwybodaeth a hysbysiadau preifatrwydd yn Saesneg a Chymraeg at y cyfweilai cyn y cyfweiliad a gwiriodd pob ymchwilydd a oeddent yn eu deall cyn dechrau'r cyfweiliad.

2.3 Casglu, rheoli a dadansoddi data

Hwylusodd canllawiau pynciau cyfweiliad lled-strwythuredig y trafodaethau ansoddol, a gynhaliwyd o bell gan ddefnyddio MS Teams. Recordiwyd a thrawsgrifiwyd yr holl gyfweiliadau'n awtomatig, gyda chydysniad gwybodus y cyfweleion. Defnyddiwyd trawsgrifiadau i ysgrifennu data'r cyfweiliadau o dan y penawdau a'r is-benawdau thematig y cytunwyd arnynt. Cafodd yr holl ddata ansoddol ei fewnbynnu a'i brosesu yn Excel. Roedd hyn yn cynnwys codio a thagio'r data i ddechrau gan ddefnyddio ffrâm codio y cytunwyd arni. Ar ôl i'r data ansoddol gael ei godio, cynhaliwyd cam dadansoddi eilaidd a oedd yn caniatáu dadansoddiad thematig yn erbyn cwestiynau ymchwil y gwerthusiad.

2.4 Ystyriaethau data

Roedd cyfweiliadau â rhanddeiliaid awdurdodau lleol yn bennaf o Wasanaethau Plant neu Wasanaethau Ieuencid. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn bosibl archwilio'r rhwystrau a wynebier ar draws yr awdurdod lleol wrth hyrwyddo ac ymgorffori'r NPS. Felly mae'n debygol y bydd barn y rhanddeiliaid yn cyflwyno rhywfaint o duedd optimistaidd, gan fod sefydliadau'r sector cyhoeddus sydd â llai o ymwybyddiaeth neu ymgysylltiad wedi'u tangynrychioli yn y data.

Nid oedd yn bosibl cyfweld â Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSBs) a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs), fel y cynlluniwyd yn wreiddiol. Daeth y tîm ymchwil ar draws heriau wrth ymgysylltu â BGCau a BPRhau yn ystod y broses recriwtio. Er gwaethaf sawl cyfathrebiad gan y tîm ymchwil a chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, nid oedd yn bosibl sicrhau cyfweiliadau yn ystod cyfnod contract y prosiect. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn bosibl casglu barn ar lefel ranbarthol ynghylch gweithredu'r NPS a rôl y Siarter a'r Nod Barcud. Roedd hyn hefyd yn cyfyngu ar y gallu i driongli canfyddiadau gyda'r data a gasglwyd.

3. Canfyddiadau o'r adolygiad tystiolaeth

Mae'r bennod hon yn cyflwyno y canfyddiadau allweddol o'r ymchwil desg. Mae'n dechrau gyda throsolwg o'r cynlluniau, siarteri, dyfarniadau ac achrediadau a weithredwyd yng Nghymru a gwledydd cymharol i gefnogi sefydliadau i ymgorffori hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc. Mae'r adran hon yn tynnu'n llwyr ar yr hyn a ddysgwyd o gynlluniau sydd wedi'u hadolygu'n ffurfiol a'u dogfennu o fewn y llenyddiaeth academiaidd, astudiaethau polisi ac adroddiadau ymchwil annibynnol. Mae llyfryddiaeth lawn i'w gweld yn Atodiad E. Mae'r bennod yn ystyried cryfder y dystiolaeth a nodweddion allweddol y cynlluniau. Yna mae'r bennod yn mynd ymlaen i nodi gwersi a ddysgwyd o brif ffrydio dulliau sy'n seiliedig ar hawliau plant ac o effeithiolrwydd siarteri, dyfarniadau ac achrediadau mewn sectorau eraill.

3.1 Trosolwg o gynlluniau

Adolygodd y tîm ymchwil 48 o ddogfennau, yn cwmpasu amrywiaeth o gynlluniau perthnasol. Mae enghreifftiau o gynlluniau allweddol wedi'u cynnwys drwy gydol yr adran hon, ac mae Atodiad C yn darparu tabl sy'n paru'r cynlluniau hyn â'r wlad gyfatebol. Mae Tabl 2 yn rhoi trosolwg o'r sylw, tra bod manylion llawn y meini prawf chwilio, sgrinio ac ansawdd i'w cael yn Atodiad B.

Trosolwg o'r cynlluniau a adolygwyd:

- **Mathau o gynlluniau:** Dyfarniadau ac achrediadau, siarter a fframweithiau.
- **Math o ddogfen:** Cyfnodolion academiaidd, adroddiadau ymchwil a gwerthuso, adroddiadau strategaeth a fframwaith.
- **Gwledydd y'u cwmpesir:** Awstralia, Gwlad Belg, Canada, Lloegr, Gogledd Iwerddon, Gweriniaeth Iwerddon, yr Alban, Unol Daleithiau America, a Chymru.

Canolbwyntiodd y cynlluniau a adolygwyd ar wella arfer o safon ymhlith sefydliadau, gan gynnwys cefnogi sefydliadau i ymgorffori blaenoriaethau cenedlaethol a dulliau arloesol i gryfhau arfer bob dydd.

Yn unol â chanllawiau'r protocol ATC a ddatblygwyd gan y tîm astudiaeth ar gyfer yr adolygiad, nodweddwyd y dogfennau a oedd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer eu cynnwys gan gynlluniau ymchwil cryf, a oedd fel arfer yn cynnwys meintiau samplau mawr a methodolegau trylwyr. Roeddent yn cynnwys:

- Gwerthusiadau dull cymysg yn cynnwys arolygon, cyfweiliadau ac astudiaethau achos, rhywfaint o ddata hydredol
- Adolygiadau systematig ac adolygiadau llenyddiaeth a dadansoddiad eilaidd
- Astudiaethau meintiol ac ansoddol

3.1.1 Modelau o gynlluniau achredu a siarteri

Datgelodd y dogfennau a adolygwyd fod y rhan fwyaf o gynlluniau achredu wedi mabwysiadu model achredu haenog. Nodweddwyd y model hwn fel arfer gan ddatblygiad graddol, fel dyfarniadau efydd, arian neu aur fesul cam. Mae enghreifftiau allweddol yn

cynnwys y [Dyfarniad Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid](#) a'r [Dyfarniad Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion \(YCiS\)](#). Mabwysiadodd cynlluniau eraill lwybr cam wrth gam tebyg i achredu gyda gwahanol lefelau. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau fel Proses 7 cam [Eco-Sgolion](#), [Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru](#) Dyfarniad Ansawdd Cenedlaethol a'r [Siarter Iaith](#), sy'n cynnwys 3 lefel yn y drefn honno.

Roedd cynlluniau achredu a fabwysiadodd y model hwn yn seiliedig ar fodloni safonau neu feini prawf diffiniedig. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn gysylltiedig â fframweithiau cenedlaethol neu ryngwladol (yn enwedig y CCUHP), gan gynnwys y Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, a'r Siarter Rhianta Corfforaethol: Addewid i Gymru. Yn y model hwn, cyflawnwyd achrediad drwy gyfuniad o hunanasesu (yn erbyn y meini prawf a osodwyd) ac asesiad allanol. Fel arfer, roedd yr hunanasesiad yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau a gymerodd ran fonitro a chasglu data a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r meini prawf a osodwyd i'w cyflwyno fel tystiolaeth o fodloni'r gofynion achredu. Gallai hyn gynnwys astudiaethau achos i amlygu arfer da. Roedd asesiadau allanol yn darparu dilysrwydd ac yn sicrhau hygyrddedd. Cynhaliwyd yr asesiadau hyn gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys paneli o arbenigwyr, a phlant a phobl ifanc.

Mae'r [Rhaflen Eco-Sgolion](#) yn enghraifft allweddol. Yn ôl Boeve-de Pauw a Van Petegem (2018), yn y model hwn, mae ysgolion yn datblygu ac yn ymgorffori polisïau amgylcheddol yn raddol, yn cynnwys disgyblion yn weithredol mewn gwneud penderfyniadau, ac yn integreiddio cynaliadwyedd i weithgareddau bob dydd. Yna mae achrediad yn seiliedig ar fodloni safonau diffiniedig, gyda phob cam yn cynrychioli carreg filltir glir. Cydnabuwyd hyn yn y llenyddiaeth i ysgogi gwelliant parhaus a sicrhau bod cynnydd yn fesuradwy ac yn cael ei ddathlu.

Mewn cyferbyniad, roedd cynlluniau eraill yn dibynnu'n llwyr ar sefydliadau'n gwneud cais i'r cynllun ac yn dangos tystiolaeth o'u cyflawniad tuag at set o safonau neu egwyddorion diffiniedig. Mae cynlluniau fel y [Cynllun Beacon](#) (Radnor, 2009) a'r [Dyfarniad Rheoli Arloesol IPAC](#) (Bernier et al., 2015) yn dibynnu ar geisiadau ffurfiol gan sefydliadau sy'n cymryd rhan. Caiff y geisiadau hyn eu hasesu drwy gyfuniad o hunanasesu mewnol, lle mae sefydliadau'n adolygu'n feirniadol ac yn dangos tystiolaeth o'u hymarfer eu hunain. Cynhelir dilysu allanol gan reithgorau annibynnol neu baneli o arbenigwyr hefyd. Gall y dull deuol hwn wella hygyrddedd, darparu adborth gwerthfawr, a meincnodi perfformiad sefydliadol yn erbyn safonau ledled y sector.

3.1.2 Nodweddion cynlluniau achredu a dyfarniadau

Un o nodweddion allweddol y modelau cyflawni a adolygwyd yw'r disgwyliad y bydd enillwyr dyfarniadau yn lledaenu eu harfer da yn weithredol. Er enghraifft, roedd yn ofynnol i gynghorau Beacon rannu eu dysgu drwy ddigwyddiadau, ymweliadau â safleoedd, a gweithgareddau rhwydweithio (Hartley a Downe, 2007). Yn yr un modd, mae cystadleuwyr ac enillwyr IPAC yn cyflwyno eu cyflawniadau mewn cynadleddau cenedlaethol, gan sicrhau bod arferion arloesol yn cael eu cyhoeddi ac ar gael ar gyfer dysgu gan gymheiriaid. Yn ôl y llenyddiaeth, mae'r model 'cydnabyddiaeth ynghyd â lledaenu' hwn yn helpu i sicrhau bod dyfarniadau'n mynd y tu hwnt i fod yn symbolaidd ac yn gyfryngau ar gyfer gwelliant ledled y sector.

Mae'r llenyddiaeth yn dangos bod eu hymngorffori yn swyddogaethau craidd sefydliadau yn cefnogi cydnabod a mabwysiadu cynlluniau a dyfarniadau. Roedd y rhai sy'n alinio â fframweithiau polisi ehangach, fel y [Cwricwlwm i Gymru](#) neu addysg arall sy'n seiliedig ar hawliau, yn cael eu hystyried yn fwy tebygol o sbarduno newid cynaliadwy, yn gysylltiedig â'r aliniad cryf â pholisi cenedlaethol (Rothwell et al., 2009; Comisiynydd Plant Cymru, 2022). Cydnabyddir hefyd fod yr angen am hyblygrwydd lleol o fewn fframwaith cenedlaethol yn ffactor ar gyfer llwyddiant gan fod hyn yn caniatáu i sefydliadau osod blaenoriaethau sy'n adlewyrchu eu cyd-destun, gan wneud cyfranogiad yn hygyrch i ystod eang o grwpiau poblogaeth (Byrne et al., 2023; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2024).

3.2 Gwersi a ddysgwyd o'r llenyddiaeth

3.2.1 Prif ffrydio dulliau sy'n seiliedig ar hawliau plant

Dangosodd y llenyddiaeth fod hawliau plant yn cael eu prif ffrydio'n fwy effeithiol pan fydd dyletswyddau cyfreithiol cryf a fframweithiau sefydliadol yn eu cefnogi. Mae rhoi hawliau mewn cyfraith genedlaethol, fel y mae'r Mesur yn ei wneud yng Nghymru, yn darparu sylfaen gadarn, gan helpu i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried ar draws pob maes polisi ac arfer. Mae mecanweithiau ymarferol, fel Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, yn trosi'r rhwymedigaethau cyfreithiol hyn yn brosesau gwneud penderfyniadau bob dydd. Mae goruchwyliaeth annibynnol gan gyrrff fel Comisiynwyr Plant a mecanweithiau cyfranogiad ffurfiol fel Seneddau leuenctid yn cryfhau atebolrwydd ac yn ei gwneud hi'n anoddach anwybyddu hawliau plant mewn cynllunio a llywodraethu. Mae fframweithiau cenedlaethol hefyd yn chwarae rhan bwysig drwy osod disgwyliadau cyffredin ac annog cyrrff cyhoeddus i integreiddio hawliau plant yn eu gwaith.

Ar ben hynny, mae tystiolaeth gref bod hawliau plant yn aml yn cael eu prif ffrydio'n fwy effeithiol pan fydd pobl ifanc yn chwarae rhan ystyrlon wrth lunio ac adolygu gwasanaethau, yn hytrach nag wrth ymgynghori â hwy yn achlysurol (Duggan et al., 2020; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2024). Mae cymryd rhan yn rheolaidd mewn cynllunio a gwneud penderfyniadau yn gwneud gwasanaethau'n fwy perthnasol ac yn sicrhau bod barn plant yn cael ei chymryd o ddifrif ar draws sefydliadau (Bragg a Manchester, 2011; Adran Materion Plant ac leuenctid, 2015). Gall cyfranogiad o'r fath gryfhau atebolrwydd drwy sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu profiadau bywyd a blaenoriaethau plant a phobl ifanc.

3.2.2 Gwersi a ddysgwyd o sectorau eraill

Mae'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â sectorau eraill yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfranogiad yn gweithio orau pan gaiff ei gynnwys yn niwylliant lleoliadau addysgol, gan gynnwys addysg uwch a sefydliadau preifat, yn hytrach na'i drin fel gweithgaredd ar wahân. Mae integreiddio cyfranogiad yn cefnogi datblygiad amgylcheddau cynhwysol lle mae pobl ifanc yn cymryd rhan yn gyson. Yn aml, canfuwyd bod hyn yn ffordd o sicrhau ymgysylltiad cryf gan blant a phobl ifanc.

Mae'r llenyddiaeth hefyd yn awgrymu, lle mae cynlluniau'n cynnig cyllid ac yn annog sefydliadau i rannu arfer da drwy ymweliadau, mentora neu rwydweithiau, eu bod yn gweithio orau pan gyfunir cydnabyddiaeth â chefnogaeth ymarferol i helpu sefydliadau i barhau i ddatblygu dros amser.

3.2.3 Hyfforddiant, arweiniad, cefnogaeth

Thema gyffredin arall yw bod angen ymrwymiad parhaus i adeiladu capasiti ar sefydliadau sy'n ceisio ymgorffori arfer da. Yn benodol, mae cyrff dyfarnu yn chwarae rhan allweddol drwy gynnig hyfforddiant strwythuredig, canllawiau ymarferol, a chefnogaeth barhaus i sefydliadau sy'n cymryd rhan (Rothwell et al., 2009; Burley, 2025). Mae'r lefel hon o gefnogaeth yn fuddiol i sefydliadau sy'n gweithio tuag at gyflawni achrediad yn ogystal ag ar gyfer sicrhau bod gwelliannau'n cael eu cynnal dros amser.

Darperir enghraifft glir gan y [Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau \(RRSA\)](#), lle darparodd UNICEF UK gyfleoedd hyfforddi a datblygu HMS i arweinwyr ysgolion i ddechrau. Cryfhawyd hyn ymhellach gan staff awdurdodau lleol a gafodd eu hyfforddi i gyflwyno fframwaith RRSA (Quennerstedt, 2022). Yn ystod y cyfnod gweithredu cychwynnol (2007–2010), galluogodd cyllid gan yr Adran Addysg ysgolion i gael mynediad at ddatblygiad proffesiynol, hyfforddiant a staff cyflenwi, gan sicrhau y gallai staff gymryd rhan heb straen ychwanegol. Yn dilyn y cyfnod hwn, cynhaliodd awdurdodau lleol lefel sylfaenol o gefnogaeth, gan adlewyrchu natur barhaus y gwaith o adeiladu capasiti sydd ei angen i ymgorffori arfer.

Mae cynlluniau eraill, fel [Eco-Sgolion Cymru](#), yn dangos pwysigrwydd rolau pwrpasol. Penododd ysgolion Gydlynnydd Eco, gyda chefnogaeth fewnol ac allanol gan Swyddogion Eco-Sgolion, i yrru'r rhaglen ymlaen. Yn yr un modd, mae'r [Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid](#) yn tanlinellu gwerth cael staff dynodedig yn gyfrifol am arwain mentrau, gyda chefnogaeth arbenigedd ac adnoddau allanol. Mae'r trefniadau hyn yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth, sgiliau ac arfer da yn cael eu datblygu a'u cynnal o fewn y sefydliad, gan leihau dibyniaeth ar un unigolyn a chefnogi cynaliadwyedd.

Mae'r broses o weithio tuag at achrediad yn aml yn cael ei nodweddu gan y gofyniad i gyflwyno portffolios neu geisiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, lle mae sefydliadau'n dangos sut maen nhw'n bodloni safonau neu egwyddorion diffiniedig. Mae'r dull hwn yn annog arfer myfyriol, gwerthuso mewnol, a gwelliant parhaus, a chefnogir pob un o'r rhain drwy'r canllawiau a'r adborth a ddarperir gan y cyrff dyfarnu. Er enghraifft, disgwylir i dderbynwyr Dyfarniad Cyngor Beacon ledaenu arfer da drwy gynnal digwyddiadau dysgu a chynhyrchu pecynnau adnoddau, gan ymgorffori gwybodaeth ymhellach yn eu sefydliad eu hunain a'i rhannu'n ehangach.

At ei gilydd, mae darparu hyfforddiant, canllawiau a chefnogaeth barhaus yn hanfodol i ymgorffori arfer da. Mae'n sicrhau bod sefydliadau wedi'u cyfarparu nid yn unig i ennill cydnabyddiaeth, ond i gynnal a datblygu eu harfer dros amser, gan feithrin diwylliant o ragoriaeth a dysgu ar y cyd sy'n fuddiol i blant a phobl ifanc ar draws amrywiol leoliadau.

3.2.4 Hyrwyddo cynlluniau achredu a siarteri

Cydnabuwyd bod hyrwyddo cynlluniau a siarteri achredu yn hanfodol i godi ymwybyddiaeth, gan annog cyfranogiad gan sefydliadau targedig (Radnor, 2009; Tien, 2012; Quennerstedt, 2022). Fel arfer, roedd cynlluniau'n manteisio ar ystod o weithgareddau allgymorth ac ymgysylltu, trwy wefannau, rhwydweithiau proffesiynol, digwyddiadau a chynadleddau i sicrhau bod cynlluniau'n weladwy i ymgeiswyr a rhanddeiliaid posibl. Roedd gwelededd y

cynlluniau a'r siarteri hefyd yn allweddol. Roedd hyn yn cynnwys brandio a logos cryf i helpu i wahaniaethu sefydliadau a enillodd ddyfarniadau ac i ddynodi ansawdd (Boeve-de Pauw a Petegem, 2017).

Roedd y cyfryngau a chyhoedduswydd yn elfennau canolog o lawer o'r cynlluniau a'r siarteri mwy llwyddiannus, fel y'u nodweddwyd gan sylw cryf, datganiadau i'r wasg gan y llywodraeth, a chyhoeddi manylion y rhai a enillodd ddyfarniadau ar-lein. Roedd hyn yn gysylltiedig â chydabyddiaeth ehangach o'r cynlluniau achredu a'r siarteri. Ystyriwyd bod cael cefnogaeth a chymeradwyaeth gref gan y llywodraeth hefyd yn ychwanegu at ddilysrwydd, ac yn helpu i sicrhau aliniad â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnal perthnasedd a chefnogaeth wleidyddol cynlluniau.

Er enghraifft, hyrwyddwyd y Marc Gwasanaeth Cwsmeriaid o Ansawdd (QCS), nod barcud sy'n cydnabod rhagoriaeth mewn gwasanaeth cwsmeriaid o ansawdd ar draws gwasanaeth cyhoeddus lwerddon, yn helaeth trwy frandio cenedlaethol penodol, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus a digwyddiadau proffil uchel blynyddol. Byddai sefydliadau buddugol yn gallu arddangos logo Marc QCS ar eu deunydd ysgrifennu, gwefannau a chyfathrebiadau, gan roi cydnabyddiaeth gyhoeddus iddynt fel arweinwyr ym maes gwasanaeth cwsmeriaid.

Yn wir, mae'r llenyddiaeth yn tynnu sylw at y ffaith bod cynnal seremonïau a digwyddiadau gwobrwyo yn allweddol i helpu i ddathlu cyflawniadau a thynnu sylw at arfer da. Mae canfyddiadau o'r llenyddiaeth yn dangos bod hyn yn helpu i osod dyfarniadau fel bathodynau rhagoriaeth ac yn gwasanaethu fel arwydd o hygyrdd i gyllidwyr, partneriaid, cleientiaid, a'r cyhoedd ehangach (Rosenblatt, 2011; Cyngor y Gweithlu Addysg, 2024). Yn yr un modd, mae llawer o gynlluniau hefyd yn defnyddio rhwydweithiau a chynadleddau proffesiynol lle mae derbynwyr cynlluniau achredu yn arddangos eu harferion a'u straeon llwyddiant. Gwelwyd hyn fel ffordd o annog sefydliadau eraill i gefnogi'r cynlluniau (Watkins a Beschel, 2010).

At ei gilydd, mae'r strategaethau hyrwyddo ar gyfer cynlluniau achredu yn dibynnu ar welededd uchel, presenoldeb cryf yn y cyfryngau, cymeradwyaeth y llywodraeth, ac arddangos straeon llwyddiant yn weithredol. Mae'r dulliau cyfunol hyn yn helpu i feithrin hygyrdd, ysgogi gwelliant, a helpu i ymgorffori diwylliant o ragoriaeth a dysgu a rennir ymhlith sefydliadau.

3.2.5 Cymhelliant a chefnogaeth

Mae cynnal newid diwylliant ystyrion o fewn sefydliadau yn gofyn am ymrwymiad hirdymor i ymgorffori hawliau plant ar bob lefel. Mae tystiolaeth yn dangos bod prif ffrydio llwyddiannus yn dibynnu ar feithrin ethos sefydliadol a rennir sy'n cydnabod plant fel deiliaid hawliau, wedi'i ategu gan arweinyddiaeth gref, hyfforddiant rheolaidd i'r gweithlu, ac aliniad â gwerthoedd ac arferion mewnol ag egwyddorion hawliau plant (Mesie, 2018). Fodd bynnag, gall blaenoriaethau cystadleuol, megis cymryd rhan mewn cynlluniau lluosog, anghydweddiadau polisi lleol, adferiad ar ôl y pandemig, a chostau gweithredol cynyddol, roi straen ar gapasiti staff a lleihau perthnasedd neu apêl cymryd rhan mewn cynlluniau

dyfarniadau (Byrne et al., 2023; Cyngor y Gweithlu Addysg, 2014; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025).

Fodd bynnag, mae risg hefyd y bydd ymgysylltu â chynlluniau achredu yn mynd yn arwynebol, gyda rhai sefydliadau'n ceisio cydnabyddiaeth yn bennaf am fri yn hytrach na gwelliant gwirioneddol (Sebba a Robinson, 2010). Pan gaiff dyfarniadau eu dosbarthu'n rhy aml neu heb deilyngdod clir, gall eu gwerth leihau, gan arwain at ddrwgdeimlad a thanseilio cefnogaeth. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu, er mwyn cyflawni newid diwylliannol parhaol, fod yn rhaid i sefydliadau symud y tu hwnt i weithrediadau symbolaidd a sicrhau bod cymhelliant i gyfranogiad wedi'i wreiddio mewn gwella arfer a chynnal hawliau plant, yn hytrach na chasglu canmolïaeth (Watkins a Beschel, 2010).

3.3 Arfer gorau a chasgliadau

Mae'r llenyddiaeth yn tanlinellu rôl bwysig cynlluniau dyfarniadau wrth ymgorffori cyfranogiad yn niwylliant bob dydd sefydliadau, yn enwedig y rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Yn hytrach na thrin cyfranogiad fel gweithgaredd untro neu ynysig, mae ei integreiddio i arferion craidd sefydliadol yn meithrin amgylcheddau gwirioneddol gynhwysol lle mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan gyson yn y broses o lunio eu gwasanaethau a'u profiadau. Mae'r dull hwn yn arwain at ymgysylltiad cynaliadwy ac ystyrlon, yn hytrach nag ymgynghori sydd wedi'i gyfyngu gan amser.

Nodweddir arfer da gan greu cyfleoedd ystyrlon ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc. Er enghraifft, mae cynghorau ieuencid a rhaglenni llysgenhadon yn cynnig fforymau rheolaidd i blant a phobl ifanc godi materion, arfer arweinyddiaeth, a dylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau. Gall y strwythurau hyn rymuso plant a phobl ifanc i wneud cyfraniadau pendant a hyrwyddo ymdeimlad o berchnogaeth ac ymreolaeth.

Roedd cynlluniau dyfarniadau ac achredu yn cael eu cydnabod yn gyffredin fel prif ysgogwyr gwelliant (Sebba a Robinson, 2014; Quennerstedt, 2022; Cyngor y Gweithlu Addysg, 2024; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2024). Mae cynlluniau sy'n nodi safonau clir ac yn darparu adborth adeiladol, fel arfer yn cefnogi sefydliadau i nodi meysydd ar gyfer twf. Lle mae cyllid yn gysylltiedig â'r cynlluniau hyn, mae'n aml yn galluogi gweithgareddau fel mentora, ymweliadau gan gymheiriaid, a rhannu arfer gorau drwy rwydweithiau proffesiynol. Mae'r cynlluniau mwyaf llwyddiannus yn cyfuno cydnabyddiaeth â chefnogaeth ymarferol barhaus, gan helpu sefydliadau i gynnal momentwm a pharhau i ddatblygu dros amser.

Roedd dysgu ar y cyd yn agwedd arall ar arfer effeithiol a oedd wedi'i dogfennu'n eang. Mae'r ymchwil yn dangos bod gwelliant sefydliadol yn tueddu i fod yn fwy amlwg pan fo cyfleoedd i ddysgu gan gymheiriaid, megis drwy ddigwyddiadau a rwydweithiau mentora (Watkins a Beschel, 2010; Rosenblatt, 2011; Bernier et al., 2015). Gall y gweithgareddau hyn hwyluso rhannu syniadau a dulliau profedig, helpu i feithrin hyder staff, a chodi safonau cyffredinol gweithluoedd a sectorau.

Canfuwyd hefyd fod hunanasesu parhaus a myfyrio ar sail tystiolaeth yn hanfodol ar gyfer cynnal cynlluniau'n effeithiol. Mae offer fel fframweithiau hunanwerthuso, rhestrau gwirio 'golwg fanwl', a phecynnau cymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn aml yn galluogi sefydliadau i adolygu eu harferion cyfranogiad, nodi cryfderau a bylchau, a chynllunio

gwelliannau wedi'u targedu (Cyngor y Gweithlu Addysg, 2024; Burley, 2025; Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2025). Mae'r dull strwythuredig hwn yn sicrhau bod newidiadau'n seiliedig ar wybodaeth go iawn ac yn cefnogi gwelliant parhaus a chyson mewn arfer.

Mae'r llenyddiaeth ymhellach yn dangos bod cynlluniau dyfarniadau yn tueddu i fod yn fwy effeithiol lle maent yn darparu cyfleoedd i bob plentyn a pherson ifanc, gan gynnwys y rhai ag anableddau, gofalwyr ifanc, neu'r rhai a allai fod angen cymorth ychwanegol, fod yn rhan o'r broses asesu. Gallai mesurau ymarferol gynnwys addasu gweithgareddau, darparu mecanweithiau adborth dienw, neu gynnig cefnogaeth wedi'i theilwra i sicrhau y gall pawb gyfrannu (Bragg a Manchester, 2011; Sebba a Robinson, 2014; Quennerstedt, 2022). Drwy flaenoriaethu cynhwysiant, roedd sefydliadau'n aml yn gallu meithrin hyder a sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed heb ofni stigma.

Enghraifft ddarluniadol o'r egwyddorion hyn ar waith yw Rhwydwaith Cynllun Ysgolion Iach Cymru. Mae'r fenter hon, a arweinir yn genedlaethol ac a gyflwynir yn lleol, yn ymgorffori hyrwyddo iechyd a chyfranogiad ystyrlon disgyblion yn arfer yr ysgol. Mae ysgolion yn symud ymlaen trwy gyfnodau strwythuredig gyda chanllawiau gan gydlynwyr lleol a chefnogaeth gan hyfforddiant ac adnoddau cenedlaethol. Mae cynghorau ysgol yn chwarae rhan ganolog, gan sicrhau bod gan blant a phobl ifanc ddylanwad gwirioneddol. Mae'r cynllun wedi dangos gwelliannau mewn ymddygiad, wedi meithrin gallu staff, ac wedi ymgorffori hyrwyddo iechyd yn ethos cyffredinol yr ysgol.

I grynhoi, mae arfer da wrth brif ffrydio cynlluniau dyfarniadau a siarteri sydd wedi'u targedu at gyrff cyhoeddus wedi'i ategu gan ddull cyfannol, cynhwysol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r enghreifftiau a rennir yn yr adran hon yn dangos sut mae cynlluniau wedi cyfrannu at integreiddio cyfranogiad i ddiwylliant sefydliadol, gan ddarparu cyfleoedd ystyrlon, cefnogi dysgu a myfyrio, a sicrhau bod cynhwysiant ar y cyd yn ysgogi newid cadarnhaol a gwelliant cynaliadwy i blant a phobl ifanc.

4. Canfyddiadau o adolygiad Siarter yr NPS a'r Nod Barcud

Mae'r bennod hon yn cyflwyno'r canfyddiadau allweddol o'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid y sector cyhoeddus, wedi'u hategu gan ganfyddiadau allweddol o'r cyfweiliadau cwmpasu. Dylid ei darllen yng nghyd-destun cyfyngiadau data a rhybuddion yr astudiaeth. Yn benodol, roedd rhanddeiliaid awdurdodau lleol yn cael eu tynnu'n bennaf o Wasanaethau Plant neu Wasanaethau Ieuencid, a olygai nad oedd yn bosibl archwilio'r ystod lawn o rwystrau a wynebwr ar draws awdurdodau lleol wrth hyrwyddo ac ymgorffori'r NPS.

Mae'r bennod yn dechrau gyda throsolwg o lefel ymwybyddiaeth a barn ar yr NPS. Mae hefyd yn darparu trafodaeth ynghylch sut mae'r NPS wedi'u rhoi ar waith yn ymarferol a rôl Siarter yr NPS a'r Nod Barcud, gan gynnwys y prif rwystrau y mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn eu hwynebu wrth eu hymgorffori. Mae'r bennod yn gorffen gyda throsolwg o farn rhanddeiliaid ynghylch sut i wella Siarter yr NPS a'r Nod Barcud ac yn ystyried offer a dulliau amgen.

4.1 Ymwybyddiaeth a gwybodaeth am yr NPS

Mae'r adran hon yn darparu cyd-destun pwysig ar gyfer y canfyddiadau a drafodir yn y bennod hon. Mae hyn yn cynnwys lefel ymwybyddiaeth o'r NPS ar draws y rhanddeiliaid a gyfwelwyd, barn a chanfyddiadau o'r 7 safon.

4.1.1 Ymwybyddiaeth a chyfathrebu

Roedd cyfathrebu a gwelededd yr NPS ar draws sefydliadau yn amrywio ymhlith y sefydliadau sector cyhoeddus a gyfwelwyd. Fel arfer, Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Ieuencid Awdurdodau Lleol oedd yn arwain y gwaith o godi ymwybyddiaeth ar draws eu gweithlu, er enghraifft drwy osod posteri a deunyddiau mewn swyddfeydd. Er bod hyn yn cael ei ystyried yn ffordd dda o wella gwelededd yr NPS, roedd un rhanddeiliad Awdurdod Lleol yn amau y gallai'r NPS ddod yn "boster ar y wal mewn canolfan ieuencid", gan bwysleisio bod angen mynd y tu hwnt i hyn.

'Ar wahân i ni'n rhoi posteri o amgylch y gwasanaeth ieuencid... Dydw i ddim o reidrydd yn meddwl ei fod wedi'i ddeall yn eang.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Ychydig o sefydliadau'r sector cyhoeddus a nododd fod yr NPS yn adnabyddus iawn ar draws eu gweithlu yn enwedig y tu hwnt i Wasanaethau Plant ac Ieuencid, a bod cynyddu ymwybyddiaeth yn flaenoriaeth gyffredin. Ystyriwyd bod sicrhau cefnogaeth gan uwch reolwyr yn hanfodol ar gyfer cynnal ymrwymiad o'r brig i lawr, er bod rhanddeiliaid wedi nodi lefelau cymysg o gefnogaeth ar lefel uwch. Ystyriwyd bod trosiant ar lefelau uwch yn risg i gynnal momentwm, gyda chanfyddiadau cyfweiliadau cwmpasu yn awgrymu y gall ymadawiadau arwain at lai o ffocws ar gyfranogiad plant a phobl ifanc oni bai bod arweinwyr sy'n dod i mewn yn hyrwyddo'r NPS.

4.1.2 Barn ar y 7 NPS

Yn gyffredinol, cytunodd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd fod y saith safon yn glir, yn gydlynol ac yn gyraeddadwy, ac roeddent yn gwerthfawrogi eu cyd-gynhyrchu â phlant a phobl ifanc.

'Rwy'n credu bod y safonau'n glir. Rwy'n meddwl bod ein staff yn eu deall ac yn gweithio iddyn nhw.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Nododd rhai fod rhai safonau'n haws i'w dangos nag eraill; er enghraifft, nododd rhai rhanddeiliaid fod Safon 6 (Adborth) yn anodd ei chyflawni oherwydd dolenni adborth anghyson neu gyfyngedig. Cwestiynodd un rhanddeiliad hefyd a oedd plant a phobl ifanc yn cael gwybod sut roedd eu hadborth a'u cyfraniadau'n cael eu defnyddio. Ystyriwyd hefyd fod Safon 3 (Dim gwahaniaethu) yn anodd i sefydliadau nad yw eu gwasanaethau bob amser yn cydnabod yr amrywiaeth ymhlith plant a phobl ifanc neu'n addasu'r ddarpariaeth yn unol â hynny. Ar y cyfan, cytunodd y rhai a gyfwelwyd fod y Safonau'n cydnabod bod gan wahanol blant a phobl ifanc anghenion gwahanol, er bod lleiafrif yn teimlo y gallai fod angen dull mwy gwahaniaethol i ddangos gweithrediad effeithiol ar gyfer grwpiau amrywiol.

4.1.3 Barn ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol

Gofynnwyd i rhanddeiliaid awdurdodau lleol fyfyrir ar eu dyletswydd statudol i hyrwyddo ac ymgorffori cyfranogiad plant a phobl ifanc a chytunwyd yn eang y dylai awdurdodau lleol hyrwyddo'r NPS yn unol â'r ddyletswydd hon. Yn benodol, gofynnwyd iddynt am fabwysiadu'r NPS i gyflawni'r ddyletswydd hon (gweler 'Cyflwyniad a chefnidir').

Yn ymarferol, mae'n ymddangos bod y safonau wedi'u hymgorffori'n dda ar draws yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan, yn benodol mewn Gwasanaethau Plant ac Ieuenctid o fewn cwrdd yr astudiaeth hon, ac fe'u hystyriwyd yn feincnod defnyddiol ar gyfer arfer cyfranogiad plant a phobl ifanc.

'Mae angen i ni wneud yn siŵr o'r cychwyn cyntaf, os ydych chi'n dod i weithio gyda [awdurdod lleol], eich bod chi'n gwybod beth ydyn nhw ac yn ymwybodol ohonyn nhw [NPS]. A thrwy hynny gallwch chi weithio gyda phobl ifanc.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Fodd bynnag, roedd rhywfaint o amrywiad yn y dehongliad a'r cymhwysiad ar lefel weithredol; disgrifiodd rhai'r safonau fel llinell sylfaen gofynnol ar gyfer arfer. Fodd bynnag, nodwyd nad oes gofyniad statudol na chanllaw ynghylch dyrannu adnoddau (megis lefelau staffio) i gefnogi'r gweithrediad. Codwyd pryderon hefyd ynghylch gweithredu anghyson ar draws adrannau oherwydd diffyg mecanweithiau archwilio neu atebolrwydd cadarn.

Ar y cyfan, er bod rhwymedigaethau statudol wedi'u cydnabod a'u cefnogi'n eang, pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen am ganllawiau cliriach, monitro gwell, a mwy o gysondeb ar draws awdurdodau lleol.

4.2 Ymgorffori'r NPS

Yn unol â'r canfyddiad bod hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc fel arfer yn eistedd o fewn Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Ieuenctid Awdurdodau Lleol, roedd gweithredu'r NPS fel arfer yn eistedd gyda thimau cyfranogiad pwrpasol neu reolwyr a swyddogion cyfranogiad. Mewn sefydliadau sector cyhoeddus eraill, roedd cyfrifoldebau yn yr un modd yn gorwedd gyda thimau a gweithwyr proffesiynol â chyfrifoldebau dynodedig penodol ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc.

Roedd ymgorffori'r NPS o fewn strategaethau cyfranogiad plant a phobl ifanc a chynlluniau cyflawni a gweithredu cysylltiedig yn gyffredin ar draws Gwasanaethau Plant ac Ieuenctid Awdurdodau Lleol. Roedd hyn yn cynnwys strategaeth lleihau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal mewn un awdurdod lleol. Fodd bynnag, roedd y graddau y cyfeiriwyd at y 7 NPS yn benodol yn amrywio. Gallai hyn awgrymu dull anghyson ar draws awdurdodau lleol o ran sut mae'r NPS yn cael eu cydnabod a'u hymgorffori o fewn gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

Yn aml, roedd strategaethau cyfranogiad plant a phobl ifanc yn alinio â gweledigaethau ehangach awdurdodau lleol ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion ac yn tynnu ar fframweithiau ychwanegol megis 'Dinasoedd sy'n Gyfeillgar i Blant' UNICEF a 'Dull Y Ffordd Gywir' dan arweiniad Comisiynydd Plant Cymru, gan adlewyrchu'r ystod o ddulliau a ddefnyddir i lunio'r ddarpariaeth o wasanaethau. Nododd rhai rhanddeiliaid hefyd fod y strategaethau hyn wedi'u cyd-gynhyrchu gyda phlant a phobl ifanc.

4.2.1 Monitro'r NPS

Daeth darlun amrywiol i'r amlwg ynghylch sut mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn monitro cyfranogiad plant a phobl ifanc, gan gynnwys yr NPS. Mewn rhai achosion, mae sefydliadau wedi sefydlu prosesau a dulliau strwythuredig i fonitro gweithrediad yr NPS. Fodd bynnag, nid oes gan sefydliadau eraill y systemau ffurfiol hyn neu mae ganddynt fecanweithiau anffurfiol (megis casglu tystiolaeth anecdotaidd) neu maent wedi mynegi ansicrwydd ynghylch dulliau monitro effeithiol, gan amlygu awydd am ganllawiau cliriach yn y maes hwn.

Lle'r oedd monitro ar waith, roedd yn aml yn gysylltiedig â strategaethau cyfranogiad a chynlluniau gweithredu, gyda gweithgareddau cyffredin yn cynnwys olrhain cynnydd, hunanwerthuso a chasglu adborth gan blant a phobl ifanc.

Cydnabuwyd yn eang bod casglu adborth yn hanfodol ar gyfer monitro effeithiol. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys olrhain atgyfeiriadau, arolygiadau, gwerthusiadau prosiectau, ymgynghoriadau a fforymau ieuenctid, a helpodd i nodi cryfderau gwasanaeth a grwpiau oedd yn anoddach ymgysylltu â nhw. Defnyddiodd rhai awdurdodau lleol adroddiadau gwasanaeth blynyddol neu adolygiadau cynllun tîm i ddangos tystiolaeth o weithredu'r NPS.

Defnyddiodd ychydig o awdurdodau lleol hefyd adrodd blynyddol ar eu Gwasanaeth Plant neu Ieuenctid, fel offeryn allweddol ar gyfer dangos tystiolaeth o weithredu'r NPS. Mewn un awdurdod lleol, cynhelir adolygiadau blynyddol o gynlluniau tîm i sicrhau bod gweithgareddau'n alinio â gofynion yr NPS, gan ddefnyddio dull cynhwysfawr i fonitro sbectrwm o weithgareddau perthnasol drwy gydol y flwyddyn.

'Rwy'n gwneud adroddiad blynyddol ar sut mae wedi'i ymgorffori.' Yna rydyn ni'n cynnal archwiliad ar draws holl gynlluniau'r tîm i sicrhau bod gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ef [NPS]...Mae yna sbectrwm eithaf eang o weithgareddau, ond maen nhw i gyd yn cael eu monitro trwy ein cynllunio a'n hamserlenni rydyn ni'n eu gosod ar gyfer y flwyddyn.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Fodd bynnag, roedd rhai o'r farn bod absenoldeb prosesau archwilio ffurfiol ar lefel yr awdurdod lleol a diffyg fframwaith cenedlaethol ar gyfer meincnodi gweithredu yn cyfrannu at anghysondebau mewn arferion monitro. Pwysleisiodd rhanddeiliad awdurdod lleol sut mae'r bwlch hwn yn ei gwneud hi'n anodd cymharu gweithrediad rhwng awdurdodau lleol. Mewn achosion eraill, ystyriwyd bod monitro yn anghyson ar draws gwahanol wasanaethau awdurdodau lleol gyda gwasanaethau ieuenctid efallai'n ddealladwy yn cael eu hystyried fel rhai â systemau cryfach ar gyfer cyfranogiad na meysydd gwasanaeth eraill.

Mae'r canfyddiadau hyn yn tynnu sylw at yr angen am gasglu data mwy cadarn a safonol, mesur effaith yn gliriach, a chanllawiau cenedlaethol i gefnogi monitro ac atebolrwydd cyson.

4.2.2 Barn ar brif ffrydio ar draws sefydliadau

Cytunodd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd y dylid prif ffrydio'r NPS ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys gwasanaethau nad ydynt yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, ond lle byddai cyfranogiad yn dal i fod yn werthfawr. Yn wir, nododd sawl rhanddeiliad Awdurdod Lleol a gyfwelwyd awydd i'r NPS gael ei gydnabod a'i ymgorffori mewn gwasanaethau eraill. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau nad ydynt o bosibl yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, ond lle byddai eu cyfranogiad yn cael ei werthfawrogi.

Ystyriwyd bod hyrwyddo'r NPS ledled sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gam cyntaf hanfodol i wella gwelededd yr NPS ar draws llinellau gwasanaeth. Adleisiwyd y teimlad hwn mewn cyfweiliadau cwmpasu, a amlygodd yr angen am gyfathrebu gwell ar yr adnoddau sydd ar gael i gefnogi sefydliadau i ymgorffori hawliau a chyfranogiad plant. Pwysleisiodd rhanddeiliaid Awdurdodau Lleol a gyfwelwyd yr angen i bob gwasanaeth ddeall eu cyfrifoldebau a chydabod gwerth plant a phobl ifanc wrth lunio gwasanaethau a pholisïau.

'Mewn gwirionedd, mae'n gyfrifoldeb ar draws y bwrdd os ydych chi allan yna'n darparu gwasanaeth. Mae'n ymwneud â phobl eraill yn deall eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau, a pha mor bwerus yw llais person ifanc.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Mae ein canfyddiadau'n dangos nad yw'r NPS yn cael ei brif ffrydio ar hyn o bryd ar draws y sefydliadau sector cyhoeddus a gyfwelwyd. Disgrifiodd un awdurdod lleol sefydlu hyrwyddwyr 'hawliau plant' pwrpasol ar draws llinellau gwasanaeth a fyddai'n arwain y gwaith o gydlyn gweithrediad yr NPS o fewn eu gwasanaeth. Ystyriwyd bod cael y rôl hon ar waith yn hwyluso cyfarfodydd traws-wasanaeth i hyrwyddo cyfrifoldeb sefydliadol a rennir dros gynnal hawliau a chyfranogiad plant, gyda'r nod o gynyddu cefnogaeth a chapasiti ar gyfer gwaith cyfranogiad ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, roedd y rhwystrau'n cynnwys capasiti cyfyngedig mewn gwasanaethau nad ydynt yn draddodiadol yn ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a chanfyddiadau nad oedd cyfranogiad yn berthnasol i rai meysydd gwaith.

At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at gefnogaeth gref i brif ffrydio'r NPS ar draws sefydliadau ond maent yn nodi rhwystrau ymarferol sy'n eu hatal rhag gwneud hynny ar hyn o bryd. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod angen gwaith pellach i ymgorffori cyfranogiad cyson ac ystyrlon plant a phobl ifanc ar draws gwasanaethau, lle bo'n briodol. Mae hyn yn

cynnwys codi ymwybyddiaeth o fanteision cyfranogiad plant a phobl ifanc a'u hawl i gael eu clywed, gan sicrhau cefnogaeth gan wahanol wasanaethau, a meithrin eu gallu i ymgysylltu. Ystyrir rôl benodol Siarter yr NPS a'r Nod Barcud wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn yn fanylach yn Adran 4.3 isod.

4.2.3 Rôl yr NPS wrth wella cyfranogiad plant a phobl ifanc

Mae tystiolaeth glir bod yr NPS yn gwasanaethu fel meincnod a phwynt cyfeirio ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus. Disgrifiodd y rhai a gyfwelwyd sut mae'r safonau wedi cryfhau strategaethau cyfranogiad, gwella'r ddarpariaeth gwasanaethau ac ymgorffori llais pobl ifanc mewn gwneud penderfyniadau. Adroddodd awdurdodau lleol fod yr NPS wedi cyfrannu at gynlluniau cyflawni cryfach, mireinio'r ddarpariaeth o wasanaethau, ymgorffori llais pobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau, a dulliau mwy systematig o gasglu ac ymateb i adborth pobl ifanc.

'Mae ein cynlluniau wedi gwella oherwydd hynny [NPS]. Mae ein gweithgareddau'n gryfach. Rydych chi'n gwybod ein bod ni'n gallu dweud yn bendant bod pobl ifanc wedi ein helpu ni i ddylunio'r gwasanaethau sy'n effeithio arnyn nhw'. – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Mae'r NPS wedi helpu i nodi bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau, ac wedi ysgogi camau gweithredu wedi'u targedu i fynd i'r afael â gwendidau. Mae'r NPS hefyd wedi cefnogi datblygiad modelau cyflawni cryfach sy'n adlewyrchu anghenion pobl ifanc. Yn benodol, nododd rhanddeiliaid a gyfwelwyd fod llais pobl ifanc yn cael ei flaenoriaethu'n well drwy gydol dylunio a gweithredu gwasanaethau.

Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff o'r NPS wedi gwella trwy gyfnodau sefydlu a hyfforddiant o fewn rhai Gwasanaethau Ieuencid a Gwasanaethau Plant. Er bod cydnabyddiaeth lefel strategol o'r NPS yn llai cyson, dangosodd rhai enghreifftiau sut roedd ymgysylltu â'r NPS yn cefnogi uwch arweinwyr i hyrwyddo cyfranogiad yn fwy effeithiol.

At ei gilydd, mae tystiolaeth y cyfweiliadau'n awgrymu bod yr NPS wedi chwarae rhan hanfodol wrth yrru gwelliannau yng nghyfranogiad plant a phobl ifanc ar draws yr awdurdodau lleol a gyfwelwyd. Maent yn darparu fframwaith clir ar gyfer gwerthuso a mireinio strategaethau cyfranogiad, yn meithrin mwy o ymwybyddiaeth ymhlith staff, ac yn cefnogi datblygiad modelau gwasanaeth dan arweiniad pobl ifanc.

4.3 Siarter yr NPS a'r Nod Barcud

Mae'r is-adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau sy'n gysylltiedig â Siarter yr NPS a'r Nod Barcud. Mae rhai canfyddiadau'n berthnasol i'r Siarter a'r Nod Barcud gyda'i gilydd, tra bod canfyddiadau eraill yn benodol i'r Siarter neu'r Nod Barcud. Dylid ystyried y nifer isel sy'n ymuno â'r Siarter a'r Nod Barcud wrth adolygu'r canfyddiadau a amlinellir yma.

Roedd lefelau cymysg o gyfarwyddyd â Siarter yr NPS a'r Nod Barcud ar draws y sefydliadau sector cyhoeddus a gyfwelwyd. Roedd hyn yn gysylltiedig i raddau helaeth â'u lefel o ymgysylltiad â'r Siarter a/neu'r Nod Barcud hyd yn hyn. Er enghraifft, roedd yn annhebygol y byddai sefydliadau nad oeddent wedi ymuno â'r Siarter o'r blaen yn gwybod

am y naill gynllun na'r llall. Tynnodd un rhanddeiliad awdurdod lleol sylw at sut na allent ddod o hyd i unrhyw wybodaeth am y Nod Barcud ar-lein.

4.3.1 Cymhellion ac ymuno

Roedd yr awydd i ddangos ymrwymiad cryf tuag at gyfranogiad plant a phobl ifanc yn allanol yn ffactor o blaid allweddol i sefydliadau'r sector cyhoeddus ymrwymo i gefnogi'r Siarter a'r Nod Barcud. Yn gyffredin, roedd awdurdodau lleol yn ystyried bod y Siarter a'r Nod Barcud yn fuddiol i dynnu sylw sefydliadau eraill at eu gwaith da yn y maes hwn.

'Mae'n arwydd i'ch gwasanaeth eich hun ac i wasanaethau eraill am eich bwriad a'ch pwrpas'. – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Er enghraifft, nodwyd bod gallu cynnwys y Nod Barcud mewn llofnodion e-bost i ddangos ymrwymiad a chyflawniad yr NPS yn gymhelliant gan un rhanddeiliad awdurdod lleol.

Roedd rhai o'r rhai a gyfwelwyd yn ystyried bod y Siarter yn fuddiol ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lefel strategol o fewn awdurdodau lleol gan ei bod yn darparu fframwaith credadwy i gefnogi cyfranogiad plant a phobl ifanc. Roedd y fantais hon, ynghyd â chael cefnogaeth gref gan y llywodraeth a goruchwyliaeth gan Plant yng Nghymru, wedi helpu i godi clod a gwelededd y Siarter.

'Y prif gymhelliant i ni oedd ein bod ni'n cydnabod pan fyddwch chi'n mynd i siarad â swyddogion strategol o sawl maes bod angen rhywbeth arnoch chi i gysylltu hynny ag ef. I ddweud: iawn, dyma beth rydyn ni'n ei feddwl sy'n set dderbyniol o safonau sy'n cael eu cydnabod gan Lywodraeth Cymru, ac mae Plant yng Nghymru yn gorff cydnabyddedig sy'n eich helpu gyda'r broses honno ac yn ei goruchwyllo.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Ystyriwyd y Siarter a'r Nod Barcud fel mecanweithiau posibl i blant a phobl ifanc ddwyn sefydliadau i gyfrif. Yn wir, tynnodd rhai o'r rhai a gyfwelwyd sylw at rôl pob cynllun wrth eu cefnogi i ddarparu gwerth i blant a phobl ifanc. Ystyriwyd ei bod yn bwysig i blant a phobl ifanc fod yn gwbl ymwybodol o'u hawlau cyfranogiad, gan fod yr ymwybyddiaeth hon yn eu galluogi i ddwyn yr awdurdod lleol i gyfrif.

'Yr holl bethau hyn rydyn ni'n eu rhoi ar waith, mewn gwirionedd, os yw pobl ifanc yn eu deall ac yn berchen arnyn nhw eu hunain, gallant ein dwyn ni i gyfrif amdanyn nhw. Dyna fydd ein ffactor o blaid mwyaf tuag ato, oherwydd mae'n golygu rhywbeth iddyn nhw.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Fel arfer, roedd y rhai a gyfwelwyd yn mynegi barn gryfach (cadarnhaol neu negyddol) ar y Siarter na'r Nod Barcud. Cysylltodd rhai rhanddeiliaid awdurdodau lleol hyn â'r oedi presennol gyda'r Nod Barcud. Teimlai rhai fod yr oedi wedi effeithio ar eu cynlluniau i ddangos tystiolaeth o'r NPS a'i weithredu, er yn ymarferol, byddai'n dal yn bosibl iddynt barhau heb ddyfarniad.

4.3.2 Gofynion

Ystyriwyd bod y broses gofrestru ar gyfer y Siarter yn syml, a bod y gofynion yn briodol. Dywedodd y rhai a gyfwelwyd fod cyfranogiad eisoes yn rhan sylfaenol o'u gwaith, felly roedd cofrestru i'r Siarter yn teimlo'n hawdd ac yn "naturiol". Awgrymodd un awdurdod lleol a oedd wedi meddu ar y Siarter a'r Nod Barcud yn flaenorol y dylai darparu tystiolaeth tuag at fodloni'r NPS fod yn rhan o broses y Siarter.

'Dydw i ddim yn dweud bod angen i'r Siarter fod yn agos at lefel y Nod Barcud, ond rhywle sydd efallai'n sicrhau bod sefydliadau eisoes ar y daith honno.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Fodd bynnag, disgrifiwyd y cais am y Nod Barcud fel proses fwy beichus. Disgrifiodd awdurdodau lleol a oedd wedi meddu ar statws Nod Barcud yn flaenorol ei fod yn gofyn am lawer o adnoddau, gan gydnabod yr angen am broses gadarn. Disgrifiwyd elfen hunanasesu'r Nod Barcud fel un hir, ond yn ymarfer gwerthfawr serch hynny.

'Roedd y broses hunanasesu sy'n dod gydag ef yn hir, ond roedd yn teimlo'n ddefnyddiol iawn oherwydd ei fod yn gwneud i chi fyfyrion onest - allwch chi dicio'r holl flychau hynny a dweud eich bod chi'n gwneud pob agwedd ar gyfranogiad ar bynciau penodol? Felly dw i'n meddwl ei fod yn broses eithaf dwys ac yn cymryd llawer o amser. Ond byddwn i'n dweud ei fod yn eithaf gwerthfawr.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Ar ben hynny, awgrymwyd hefyd y gallai'r ymrwymiad amser sy'n ofynnol ar gyfer yr hunanasesiad fod yn rhwystr i symud o gael y Siarter i wneud cais am y Nod Barcud. Hefyd, dylid symleiddio'r broses o fynd o'r Siarter i'r Nod Barcud.

'Oherwydd yr ymrwymiad amser sydd ei angen, gallai hynny beri i rai sefydliadau beidio â gwneud cais amdano [Nod Barcud], a dyna pam efallai eu bod nhw'n aros yn y math yna o ddolen Siarter'. – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Yn gyffredinol, roedd awdurdodau lleol yn canmol y gefnogaeth a gawsant gan Plant yng Nghymru yn ystod y broses ymgeisio, a oedd yn cynnwys ymweliadau rheolaidd. Fe wnaethant hefyd dynnu sylw at sut mae'r Nod Barcud yn alinio â systemau ansawdd eraill yng Nghymru, fel arolygiadau Estyn a'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith leuenctid, gan ddarparu cysondeb. Fodd bynnag, adroddwyd bod angen gwell integreiddio a llai o ddyblygu ar draws systemau arolygu. Awgrymwyd y gellid cyflawni hyn drwy alinio'r dystiolaeth sydd ei hangen i gyflawni'r Nod Barcud â fframweithiau a dyfarniadau presennol. Ar ben hynny, nodwyd sut y byddai'n dda cael esboniad cliriach o'r broses asesu a chyfweld ymlaen llaw, er mwyn gwybod beth i'w ddisgwyl. Awgrymwyd templed hawdd i ymgeiswyr ei ddilyn, er mwyn gwneud y broses yn llyfnach ac i sicrhau bod awdurdodau lleol yn glir ynghylch yr hyn a ddisgwylir ganddynt.

Roedd tystiolaeth ar fecanweithiau monitro ar gyfer y Siarter a'r Nod Barcud yn fwy cyfyngedig. Awgrymodd un awdurdod lleol ddatblygu system archwilio neu fonitro genedlaethol gyson, er mwyn sicrhau atebolrwydd a galluogi cymhariaeth ar draws sefydliadau sydd â'r Nod Barcud.

'Does dim archwiliad ar hyn o bryd. Byddai'n ddiddorol nodi pa wasanaethau sy'n ei hyrwyddo mewn gwirionedd, pwy ddylai fod yn gwneud mwy.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Nododd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd nad oedd ganddynt brosesau monitro ffurfiol ar waith, ond roedd rhai yn integreiddio tystiolaeth o gyflawni dyletswyddau statudol yn eu hadroddiadau arferol.

4.3.3 Gwerth y Siarter a'r Nod Barcud

Roedd barn gymysg ar werth y Siarter a'r Nod Barcud fel dulliau i hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc a dangos ymrwymiad. Roedd y Siarter yn cael ei chydabod yn gyffredin fel offeryn gwerthfawr wrth hyrwyddo'r NPS, yn benodol fel ffordd i sefydliad gydnabod eu bod yn ymgorffori'r safonau. Roedd awdurdodau lleol a gyfwelwyd yn gwerthfawrogi gallu arddangos y gwaith cadarnhaol y maent wedi bod yn ei wneud o fewn y maes cyfranogiad, a sut maent wedi gosod llinell sylfaen dda ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc o fewn eu hawdurdod lleol.

'Rwy'n credu ei fod yn addas at y diben. Mae wedi gweithio'n sicr i ni fel sefydliad i agor y sgysiau hynny a chael pwynt cyfeirio i gael y sgysiau hynny gyda grwpiau strategol uwch. Mae'n gosod llinell sylfaen.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Y prif fanteision a adroddwyd o'r Siarter a'r Nod Barcud oedd eu bod yn atgyfnerthu arfer o ansawdd uchel, yn annog myfyrio a gweithredu ar yr hyn y mae cyfranogiad yn ei olygu a sut y gellid ei gyflawni. Nododd un awdurdod lleol a oedd wedi meddu ar y Siarter a'r Nod Barcud yn flaenorol sut roedd y ddau gynllun wedi cryfhau hygyrdded proffesiynol o fewn a thu hwnt i'r Cyngor. Roedd awdurdodau lleol eraill yn gweld y Siarter yn fodd o ddilysu buddsoddiad mewn pobl ifanc, gan ei fod yn arwydd o'r gwaith cadarnhaol yr oedd sefydliadau'n ei wneud. Ymhlith y manteision annisgwyl a adroddwyd roedd cyfathrebu mewnol gwell a chasglu tystiolaeth yn fwy systematig.

Fodd bynnag, awgrymwyd y byddai'r Siarter yn fwy buddiol pe bai camau gweithredu pendant ynghlwm wrthi, sy'n cefnogi canfyddiad a gyflwynir yn [adran 4.3.2](#). Awgrymodd un awdurdod lleol a gyfwelwyd y byddai cynllun gweithredu yn offeryn defnyddiol ochr yn ochr â'r Siarter i gefnogi sefydliadau i gael rhywbeth i weithio tuag ato.

Roedd sefydliadau eraill a oedd wedi mabwysiadu'r Siarter yn ei chael yn offeryn defnyddiol i annog sefydliadau i gwblhau hunanasesiadau a chynlluniau gweithredu, mewn ymgais i ymgorffori cyfranogiad ystyrlon ym mhob agwedd ar eu gwaith.

Roedd y rhai a gyfwelwyd hefyd yn gwerthfawrogi bod yr Arolygwyr Ifanc wedi bod yn rhan o'r broses Nod Barcud. Gwelwyd hyn fel elfen hanfodol o'r Nod Barcud gan ei fod yn sicrhau bod sefydliadau'n cael eu dwyn i gyfrif gan fuddiolwyr eu gwaith. Gwelwyd rôl yr Arolygydd Ifanc fel un sy'n rhoi sicrwydd i sefydliadau allanol bod cyfranogiad yn ddilys yn hytrach nag yn symbolaidd ac yn cryfhau hygyrdded.

'Rydych chi'n mynd i gael cymaint o werth gan bobl ifanc yn dod ac yn rhoi adborth i chi ar y model...Y bobl ifanc eu hunain ac maen nhw'n cymryd rhan, maen nhw'n cael eu clywed, maen nhw'n bwydo'n uniongyrchol i brosesau sut mae hynny'n cael ei weithredu. Mae'n wych ac rwy'n meddwl, wel, mae hwnna'n fodel mor dda.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Roedd y sefydliadau hynny nad oeddent wedi gwneud cais am statws Siarter na Nod Barcud yn gyffredin o'r farn nad oedd digon o apêl i warantu'r amser a'r adnoddau y byddai'n eu cymryd i wneud cais. Roedd y rhai a gafodd eu cyfweld wedi ymrwymo i gyfranogiad ystyrlon, ac yn credu ynddo, ond nid oedd rhai o'r farn ei bod yn angenrheidiol neilltuo adnoddau er mwyn arddangos hyn.

'Ydyn ni'n ystyried y byddai'n rhoi digon o werth i ni o ran hyder ein bod ni'n cyflawni hyn, neu hygredded gydag awdurdodau lleol eraill neu'r holl bethau hynny o'i gymharu â'r amser y byddai'n ei gymryd?' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Fodd bynnag, roedd rhai awdurdodau lleol nad oeddent yn dal statws Siarter na Nod Barcud yn credu y byddai'n beth da i'w hawdurdod lleol fwrw ymlaen ag ef. Nodasant y byddai'n eu helpu i ddangos tystiolaeth o'u hymrwymiad i'r NPS a'i feincnodi.

'Byddai hynny'n ein helpu i feincnodi a dangos tystiolaeth ein bod yn gwranddo ar blant a phobl ifanc a'n bod yn cydnabod eu hawliau a'i fod wedi'i ymgorffori mewn arfer, sydd, yn fy marn i, yn bwysig iawn i ni fel awdurdod lleol.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'n dangos y gall prosesau'r Siarter a'r Nod Barcud fod yn offer gwerthfawr ar gyfer meithrin cyfranogiad ystyrlon, er bod rhanddeiliaid yn amrywio o ran pa mor gryf yr oeddent yn ystyried eu manteision a'u heffeithiolrwydd. Canfyddir bod y cynlluniau'n gwella hygredded proffesiynol o fewn sefydliadau sy'n eu cefnogi. Maent yn annog arfer myfyriol, yn sbarduno gweithredu cadarnhaol, ac yn gwasanaethu fel pwyntiau cyfeirio pwysig ar gyfer trafodaethau strategol. Er bod manteision clir i sefydliadau, a phlant a phobl ifanc, gan gynnwys mwy o ddylanwad a hyder, mae angen cydnabyddedig hefyd am fwy o welededd, cyfathrebu cliriach, a chynnwys camau gweithredu pendant i gefnogi datblygiad parhaus. Mae cyfraniad Arolygwyr Ifanc yn cael ei werthfawrogi'n arbennig, gan sicrhau atebolrwydd ac ymgysylltiad gwirioneddol, ond mae angen gwaith pellach i fynd i'r afael â phryderon a sicrhau'r effaith fwyaf posibl o'r mentrau hyn.

4.4 Cryfhau Siarter yr NPS a'r Nod Barcud

4.4.1 Gwella hyrwyddo a negeseuon

Roedd consensws cyffredinol ymhlith rhanddeiliaid y sector cyhoeddus a gyfwelwyd bod angen hyrwyddo a negeseuon cryfach ar Siarter yr NPS a'r Nod Barcud. Cefnogwyd y farn hon gan gyfweiliadau cwrpasu gan mai thema allweddol oedd yr angen i gynyddu gwelededd y safonau yn gyffredinol, a hyrwyddo cynlluniau'r Siarter a'r Nod Barcud yn fwy. Gwelwyd hyn fel ffordd bosibl o hybu'r defnydd ymhlith sefydliadau.

'Byddai'n dda gwybod sut mae'r Nod Barcud yn cael ei hyrwyddo y tu allan i'r awdurdodau lleol ac ati. Rydym yn deall y pwysigrwydd ond a yw pobl eraill yn y gymuned yn gyffredinol yn gwybod beth mae'r Nod Barcud yn ei olygu? Roedden ni eisiau ei roi ar ein negeseuon e-bost...ond a fyddai unrhyw un yn gwybod beth ydyw?' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Yn benodol, mynegodd rhanddeiliaid awdurdodau lleol a gyfwelwyd ddiddordeb mewn cael mynediad at wybodaeth gyfoes am yr NPS yn ogystal â'r Siarter a'r Nod Barcud. Awgrym arall i wella gwelededd y Siarter a'r Nod Barcud oedd cynnal digwyddiadau i ddathlu sefydliadau sy'n ymrwmo i'r Siarter ac yn cyflawni'r Nod Barcud. Byddai hyn yn cynnwys cyfleoedd i rannu arfer da a hyrwyddo'r NPS a darparu cymhellant pellach i ymgymryd â'r cynlluniau.

4.4.2 Canllawiau, cefnogaeth a hyfforddiant

Roedd yr angen am ganllawiau clir, cyson ac ymarferol yn thema gyffredin ar draws y cyfweiliadau. Roedd cael cefnogaeth barhaus ar lefel genedlaethol o bwys allweddol, yn enwedig i awdurdodau lleol. Roedd hyn yn gysylltiedig â dyletswydd statudol awdurdodau lleol i hyrwyddo ac ymgorffori'r NPS. Yn benodol, nododd rhanddeiliaid awdurdodau lleol a gyfwelwyd y byddent yn elwa o ganllawiau cliriach ynghylch disgwyliadau ar gyfer cyllid, amser ac adnoddau sydd eu hangen i ymgorffori'r NPS. Mae'r awgrymiadau allweddol a gynigir yn cynnwys:

- Darparu pecyn cymorth (gyda rhestrau gwirio, templedi adrodd, ac enghreifftiau o arfer da) sy'n nodi'n union beth sydd angen i sefydliadau ei wneud i gyrraedd y safonau. Gallai hyn ei gwneud hi'n haws i dimau ac adrannau prysur ddeall a gweithredu'r safonau, yn ogystal â sicrhau cysondeb a chynaliadwyedd ar draws timau.
- Hyfforddiant i Swyddogion Cyfranogiad ynghylch prosesau'r Siarter a Nod Barcud, fel bod y wybodaeth hon wedi'i hymgorffori yn y rôl ac wedi'i chysylltu â'r rhwydwaith cenedlaethol.

Nododd y rhai a gyfwelwyd hefyd rôl Plant yng Nghymru wrth ddarparu cefnogaeth barhaus i sefydliadau sy'n ymuno â'r cynlluniau. Un awgrym a roddwyd oedd y gallai Plant yng Nghymru hwyluso cyfleoedd dysgu gan gymheiriaid ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio tuag at y Nod Barcud. Awgrymwyd system gyfeillio hefyd, lle mae sefydliadau sydd wedi cyflawni'r Siarter neu'r Nod Barcud yn cefnogi eu cymheiriaid drwy'r broses. Fodd bynnag, cydnabuwyd efallai na fyddai hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau capasiti.

Tynnodd un sefydliad sector cyhoeddus sylw at y gwahaniaeth mewn cyd-destun y dylid ei ystyried ar gyfer sefydliadau nad ydynt yn awdurdodau lleol wrth wneud cais am y Siarter neu'r Nod Barcud. Awgrymon nhw y byddai'n dda cael 'person cyswllt' sy'n deall maes busnes y sefydliad, i'w cefnogi'n benodol o amgylch dyletswyddau eu sefydliad a'u helpu i gyrraedd y safonau yn eu cyd-destun.

'Mae angen llawer mwy o ganllawiau a fyddai'n helpu sefydliadau i ddehongli'r safonau hynny drwy lens y gwaith maen nhw'n ei wneud a'r bobl ifanc maen nhw'n eu gwasanaethu.' – Rhanddeiliad corff cyhoeddus

Yn yr un modd, awgrymodd un awdurdod lleol fod angen mwy o gefnogaeth i sefydliadau'r sector cyhoeddus, a thimau neu adrannau o fewn y sefydliadau hynny, nad ydynt yn rhyngweithio'n rheolaidd â phobl ifanc. Byddent yn elwa o fwy o gefnogaeth, sgiliau a hyfforddiant i ymgorffori cyfranogiad plant a phobl ifanc fel rhan o'u gwasanaeth. Byddai hyn yn helpu i sicrhau nad yw'r cyfrifoldeb yn disgyn yn llwyr ar arweinwyr cyfranogiad dynodedig ond yn hytrach yn cael ei ymgorffori mewn darpariaeth gwasanaethau ehangach.

Roedd yr awgrymiadau hyn yn aml yn cael eu hategu gan yr angen canfyddedig am adnoddau i gefnogi sefydliadau'n well i ymgorffori'r NPS yn ystyrllon a dangos tystiolaeth o'u cyflawniadau drwy'r broses Nod Barcud. Yn wir, tynnwyd sylw at gapasiti fel rhwystr allweddol i'r gwaith hwn gan lawer o'r rhai a gyfwelwyd, gyda gwaith cyfranogiad yn aml yn disgyn i staff sydd eisoes wedi'u gorbwyso i'w reoli ar ben ystod o gyfrifoldebau eraill.

'Dylai cyllid gael ei fframio o amgylch y safonau, fel bod sefydliadau'n deall yn awtomatig fod pŵer yn hyn a bod gwerth iddo.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Roedd cyfyngiadau capasiti yn arbennig o amlwg mewn awdurdodau lleol heb swyddogion cyfranogiad pwrpasol. Yma, nodwyd bod angen mwy o gefnogaeth ar lefel genedlaethol, er mwyn sicrhau bod sefydliadau sydd heb allu mewnol i gymryd rhan yn cael eu harwain i gyflawni'r safonau. Awgrymwyd hefyd y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gliriach ynghylch yr hyn a ddisgwylir gan sefydliadau o ran amser ac adnoddau a neilltuwyd i gyfranogiad, er mwyn sicrhau bod digon o adnoddau mewnol yn cael eu darparu'n lleol gan y sefydliad.

4.4.3 Ystyriaethau ar gyfer rôl yr Arolygwyr Ifanc

Fel yr adroddwyd yn adran [4.3.3.](#), roedd rôl Arolygwyr Ifanc fel rhan o broses y Nod Barcud yn cael ei gwerthfawrogi gan y rhai a gyfwelwyd. Yn bwysig, mae cyfweiliadau cwmpasu a chyfweiliadau â rhanddeiliaid y sector cyhoeddus yn tynnu sylw at y ffaith bod y rôl hon yn hanfodol er mwyn dwyn sefydliadau i gyfrif. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch tangynrychiolaeth plant a phobl ifanc sy'n llai tebygol o gymryd rhan, gan gynnwys y rhai sydd â Saesneg fel ail iaith, anawsterau dysgu, a phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu gwahardd.

'Rwy'n credu bod amrywiaeth y bobl ifanc hynny... rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn hefyd, bod plant o bob cefndir, o fywyd yn gallu herio'r gwasanaethau yn y ffyrdd cywir.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Tynnodd un sefydliad yn y sector cyhoeddus sylw at bwysigrwydd penodi a chefnogi plant a phobl ifanc fel Arolygwyr Ifanc ond roedd yn teimlo i'r un graddau y dylai fod craffu annibynnol gan weithwyr proffesiynol sy'n oedolion i atal sefydliadau rhag cyflwyno darlun camarweiniol. Fodd bynnag, roedd hyn yn cael ei gydbwyso â safbwyntiau bod angen ystyried yn well allu plant a phobl ifanc i gymryd rhan ym mhroses y Nod Barcud. Ystyriwyd bod rôl yr Arolygydd Ifanc yn rôl sy'n gofyn am gapasiti ac adnoddau sylweddol i'w chyflawni'n dda. Eto i gyd, mae angen ystyried sut y gall plant a phobl ifanc ymdopi â'r rôl hon ochr yn ochr â'u hymrwymyiadau i ysgol, gwaith, bywyd cymdeithasol, a hunanofal, tra'n gynnal cynrychiolaeth o blith pobl ifanc ag anghenion ac amgylchiadau amrywiol.

4.4.4 Offer a dulliau eraill

Adroddodd sefydliadau'r sector cyhoeddus a gyfwelwyd eu bod wedi defnyddio amrywiaeth o offer a dulliau i gryfhau eu gwaith cyfranogiad plant a phobl ifanc. Fel yr adroddwyd yn adran 4.2, mae'r NPS yn cael eu gweld yn gyffredin fel rhan o dirwedd eang o hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Fel estyniad o hyn, gellir gweld Siarter yr NPS a'r Nod Barcud hefyd fel rhan o set o offer a dulliau y mae sefydliadau'n eu cefnogi, i wella eu harfer o amgylch cyfranogiad plant a phobl ifanc.

Nododd yr adolygiad amrywiaeth o gynlluniau amgen, gan gynnwys [Menter Dinasoedd sy'n Gyfeillgar i Blant UNICEF](#), [Dull Y Ffordd Gywir Comisiynydd Plant](#), y [Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid](#), y [Siarter Rhianta Corfforaethol](#), a chynlluniau a ddatblygwyd yn lleol.

Roedd y rhesymau dros fabwysiadu'r cynlluniau hyn yn lle Siarter yr NPS a'r Nod Barcud yn benodol i'r ardal lleol. Mewn rhai achosion, roedd Awdurdodau Lleol wedi gwerthuso'r opsiynau ac wedi ystyried cynlluniau eraill yn fwy addas i'w cyd-destun lleol. Er enghraifft, nododd un rhanddeiliad awdurdod lleol fod eu siarter ieuenctid lleol yn cael ei ystyried yn fwy buddiol na bod yn aelod o gynllun cenedlaethol, oherwydd yr hyblygrwydd mwy i wneud newidiadau i fynd i'r afael ag anghenion sy'n esblygu:

'Mae'r siarter lleol...sydd gennym ni yn ôl pob tebyg yn cael mwy o effaith ar ddefnyddwyr ein gwasanaeth a gallwn ni uniaethu â hi fel sefydliad: Dyma beth rydyn ni'n mynd i'w wneud. Dyma sut rydyn ni'n mynd i'w wneud. Dyma'r hyn y gallwch ei ddisgwyl gennym ni.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Mewn achosion eraill, roedd yr oedi o ran y cynllun Siarter yr NPS a'r Nod Barcud yn ffactor, ac adroddodd awdurdodau lleol eu bod wedi mabwysiadu dulliau amgen i osgoi colli momentwm tra nad oedd ymuno â'r cynllun yn opsiwn. Mewn rhai achosion, cyflwynwyd Siarter yr NPS a'r Nod Barcud ar y cyd ag offer a fframweithiau eraill, yn hytrach nag fel dewis arall yn eu lle. Er enghraifft, mae'r Nod Barcud wedi'i groesgyfeirio o fewn Y Ffordd Gywir fel un o sawl offeryn sydd ar gael i sefydliadau i gefnogi eu gwaith o hyrwyddo hawliau plant.

Beth bynnag fo'r rheswm dros ddewis cynlluniau amgen, adroddodd y rhai a gyfwelwyd eu bod yn mabwysiadu'r offer, y fframweithiau a'r egwyddorion (sy'n cynnwys cyfranogiad plant a phobl ifanc) a hyrwyddir gan y cynlluniau hyn i lywio eu harfer. Er enghraifft, mae un awdurdod lleol wedi blaenoriaethu Menter Dinasoedd sy'n Gyfeillgar i Blant UNICEF, sydd wedi'i chynllunio i ymgorffori hawliau plant fel yr amlinellir yn y CCUHP, yn y cyd-destun lleol. Mae tîm Dinasoedd sy'n Gyfeillgar i Blant ymroddedig ar draws adrannau yn cydlynu cyfranogiad plant ar draws adrannau ac yn gweithio'n arbennig o agos gyda Gwasanaethau Plant. Nodwyd yn ystod cyfweiliadau bod hyfforddiant gorfodol i staff ar draws yr holl wasanaethau wedi helpu i godi proffil ac ymwybyddiaeth o gyfranogiad plant a phobl ifanc ar draws y bwrdd.

Roedd dull Y Ffordd Gywir y Comisiynydd Plant hefyd ymhlith yr enghreifftiau o gynlluniau a ddefnyddir yn lleol. Lle'r oedd hyn wedi'i fabwysiadu, roedd rhanddeiliaid awdurdodau lleol yn cefnogi'r model fel fframwaith i'w cefnogi i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant a phobl ifanc, ac yn enwedig i gefnogi staff i ymgorffori cyfranogiad yn eu harfer.

'Fe wnaeth [dull Ffordd Gywir] sicrhau bod ein holl dimau'n ymgorffori eu cynlluniau. Felly, rwy'n credu ei fod yn eithaf defnyddiol i ni, ond rwy'n credu bod unrhyw offeryn sy'n cael ei ddefnyddio'n gyson yn cael ei groesawu gennym oherwydd ei fod yn mynd yn ôl at y pwynt cyfeirio hwnnw drwy'r amser, onid yw? O allu dweud: Dyma'r safon, dyma ein disgwyliad ni.' – Rhanddeiliad awdurdod lleol

Mae cyfweliadau cwmpasu yn rhoi cipolwg pellach ar sut y gall dull Y Ffordd Gywir gefnogi sefydliadau. Mae sefydliadau sy'n mabwysiadu 5 egwyddor y dull yn derbyn cyngor ymarferol, gan gynnwys pecyn cymorth ac offeryn hunanasesu i gynorthwyo'r gweithrediad. Mae hyfforddiant hefyd wedi'i deilwra i wahanol sectorau, gan ei wneud yn addasadwy ac yn berthnasol ar draws cyd-destunau. Nododd un rhanddeiliad cyfweliad cwmpasu fod yr elfennau hyn wedi cael derbyniad da gan gyrff cyhoeddus.

Cafodd y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith leuenctid ei grybwyll gan rai awdurdodau lleol hefyd fel fframwaith cadarnhaol y maent yn ei ddefnyddio i ymgorffori cyfranogiad plant a phobl ifanc, oherwydd ei ddilysu allanol a'i fanteision hyrwyddo. Fodd bynnag, nodwyd sut y gall y gost a'r gofynion staffio ar gyfer rhai o'r cynlluniau amgen hyn eu gwneud yn llai hygyrch i awdurdodau llai neu awdurdodau sydd â chyfyngiadau o ran adnoddau.

Lle mae awdurdodau lleol wedi mabwysiadu ac yn aml wedi blaenoriaethu cynlluniau eraill dros Siarter yr NPS a'r Nod Barcud, mynegodd rhanddeiliaid yn aml fod hyn wedi creu dyblygu gwaith. Er enghraifft, nododd awdurdodau lleol sydd wedi mabwysiadu Dinas sy'n Gyfeillgar i Blant UNICEF, Marc Ansawdd y Gwasanaeth leuenctid a fframweithiau arolygu Estyn yr angen i gynhyrchu tystiolaeth dro ar ôl tro sy'n gorgyffwrdd â gofynion Siarter yr NPS a'r Nod Barcud. Awgrymasant y gall hyn roi pwysau ar adnoddau a chreu ailadrodd diangen a thynnwyd sylw at yr angen i symleiddio a gwell aliniad ar draws systemau.

At ei gilydd, mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at fanteision dulliau amrywiol a heriau straen ar adnoddau, gan bwyntio at angen clir am fwy o alinio a symleiddio.

5. Casgliadau

Mae'r adroddiad hwn wedi defnyddio tystiolaeth o lenyddiaeth a chyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol i ystyried effeithiolrwydd siarteri, cynlluniau achredu a dyfarniadau ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus, ac i asesu lefelau ymwybyddiaeth o Siarter yr NPS a'r Nod Barcud yn benodol; gan nodi ffactorau sy'n cefnogi neu'n atal ymuno a'u dymunoldeb ochr yn ochr â modelau lleol eraill. Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar ymchwil baratoadol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn 2024, gyda chefnogaeth Plant yng Nghymru, a ganfu lefelau isel o ddefnydd o'r Siarter a'r Nod Barcud.

Yn y bennod hon, rydym yn dod i gasgliad ar y canfyddiadau cyffredinol. Dylid darllen y casgliadau yng nghyd-destun y cyfyngiadau data a'r rhybuddion ar gyfer yr astudiaeth. Yn benodol, roedd rhanddeiliaid awdurdodau lleol yn bennaf o Wasanaethau Plant neu Wasanaethau Ieuencid. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn bosibl archwilio'r rhwystrau a wynebier ar draws yr awdurdod lleol wrth hyrwyddo ac ymgorffori'r NPS. Felly mae'n debygol y bydd barn y rhanddeiliaid yn cyflwyno rhywfaint o duedd optimistaidd, gan fod sefydliadau'r sector cyhoeddus sydd â llai o ymwybyddiaeth neu ymgysylltiad â'r NPS wedi'u tangynrychioli yn y data.

Nod 1: Adolygu tystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd siarteri, cynlluniau achredu a dyfarniadau wrth gefnogi sefydliadau i ymgorffori dulliau cenedlaethol yn ymarferol. Bydd yr agwedd hon ar yr ymchwil yn syntheseiddio llenyddiaeth allweddol i ddeall nodweddion y dulliau mwyaf effeithiol o fewn y sector cyhoeddus.

Mae'r adolygiad wedi cadarnhau bod gan nodau barcud a chynlluniau dyfarniadau rôl bwysig i'w chwarae wrth gymell a chefnogi sefydliadau'r sector cyhoeddus i ymgorffori safonau cenedlaethol neu ryngwladol. Mae cynsail sefydledig ar gyfer y dulliau hyn sy'n ymwneud â hawliau plant a llesiant plant yn benodol, ac wrth wasanaethu meysydd ehangach o bolisi cyhoeddus. Er bod gan gynlluniau sy'n canolbwyntio ar blant ddimensiwn cyfreithiol penodol, sydd fel arfer wedi'i seilio ar y CCUHP, mae gan gynlluniau effeithiol yn y sector cyhoeddus nifer o nodweddion y gellir eu cyffredinoli i ryw raddau ar draws yr enghreifftiau yn y llenyddiaeth.

Modelau effeithiol o gynlluniau dyfarniadau ac achredu:

- Wedi'u hangori mewn set glir o feini prawf mesuradwy
- Yn weladwy, yn cael cyhoeddusrwydd gweithredol, ac yn cael eu cydnabod yn eang
- Yn dynodi ansawdd uchel, ac yn cynnwys elfen uchelgeisiol
- Yn dal sefydliadau i gyfrif gyda monitro a gwerthuso cymesur
- Yn defnyddio meincnodau a cherrig milltir i fesur gwelliant
- Yn cyfuno hunanasesiad ac asesiad allanol i ddilysu cynnydd
- Yn gwobrwyo ymdrechion i gyflawni a chynnal statws achrededig
- Yn dathlu a lledaenu llwyddiant a rhannu arferion da

Roedd rhinweddau bod yn 'fesuradwy a chael eu dathlu' a 'chydabyddiaeth ynghyd â lledaenu' yn gyffredin i'r enghreifftiau llwyddiannus yn y llenyddiaeth. Gall yr elfennau hyn

helpu i osgoi symbolaeth, drwy wneud sefydliadau'r sector cyhoeddus yn weladwy a'u dwyn i gyfrif yn fertigol i'r Llywodraeth ac yn llorweddol i'w cymheiriaid o fewn y sector.

Mae'r llenyddiaeth hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd sefydlu'r amodau a'r seilwaith cywir sy'n caniatáu i nodau barcud a chynlluniau dyfarniadau ffynnu. Cafodd cynlluniau effeithiol eu hymgorffori o fewn swyddogaethau craidd sefydliadau'r sector cyhoeddus a'u halinio â safonau neu ddyletswyddau eraill a oedd yn ganolog i'w mandad. Roedd cymeradwyaeth gan uwch reolwyr, dynodi 'hyrwyddwyr' neu eiriolwyr mewnol, a hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer y gweithlu i gyd yn elfennau pwysig i ddiogelu cynlluniau rhag effeithiau trosiant staff a blaenoriaethau sefydliadol newidiol dros amser.

Yn aml, byddai cynlluniau â brand cenedlaethol yn cyfuno cymeradwyaeth ar lefel polisi â gweithredu hyd braich trwy bartner cyflawni er mwyn cynnal annibyniaeth. Yn y rhan fwyaf o'r enghreifftiau, chwaraeodd cyrff dyfarnu rôl ganolog drwy gynnig hyfforddiant strwythuredig, canllawiau ymarferol, a chefnogaeth barhaus i sefydliadau a oedd yn cymryd rhan, yn ogystal â chynnal cymunedau arfer neu rwydweithiau proffesiynol i hwyluso dysgu ar y cyd.

Yn achos dyfarniadau a nodau barcud a oedd yn canolbwyntio ar blant yn benodol, roedd cynlluniau aeddfed yn cael eu cefnogi'n gyffredinol gan becynnau cymorth ymarferol, fel Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant, i helpu i drosi rhwymedigaethau cyfreithiol yn benderfyniadau bob dydd. Roedd y cynlluniau hyn yn ymestyn atebolrwydd o gyllidwyr a chyrff dyfarnu i atebolrwydd i blant a phobl ifanc ac yn adlewyrchu anghenion plant ag anghenion a nodweddion amrywiol. Yn aml, roeddent yn darparu mecanweithiau i blant gymryd rhan yn y broses o ddylunio, gweithredu a llywodraethu'r cynlluniau trwy strwythurau cynrychioliadol.

Nod 2: Ymgymryd â dulliau ansoddol gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc er mwyn deall:

- **y rhwystrau sy'n atal sefydliadau rhag mabwysiadu Siarter yr NPS a'r Nod Barcud, gan atal defnydd o'r cynlluniau**
- **i ba raddau y mae'r Siarter a'r Nod Barcud yn cefnogi sefydliadau i gyflawni ac ymgorffori'r NPS**
- **y rhesymau pam mae rhai sefydliadau wedi dewis fframweithiau neu fodelau amgen i hyrwyddo cyfranogiad.**

Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol (NPS)

Canfu'r adolygiad lefel uchel o gymeradwyaeth i'r Safonau ymhlith staff y sector cyhoeddus a gymerodd ran yn yr ymchwil. Yn gyffredinol, roeddent yn cael eu hystyried yn glir, yn gyraeddadwy, ac yn berthnasol, ac yn darparu meincnod ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc ledled Cymru. Lle y'i gweithredwyd yn llawn, nododd rhanddeiliaid gyfraniad yr NPS at gryfhau strategaethau cyfranogiad lleol, mireinio'r ddarpariaeth gwasanaethau, a chynnwys llais ieuenctid mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn arbennig o wir o fewn Gwasanaethau Ieuenctid a Gwasanaethau Plant awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan. Mae

dynodi cyfrifoldeb am yr NPS i weithwyr cyfranogiad, gyda chefnogaeth hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, wedi darparu pwynt ffocws gwerthfawr ar gyfer gweithredu lleol yn amlwg, tra bod rhwydwaith y gweithwyr cyfranogiad wedi cysylltu arferion ar lefel Cymru gyfan.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, roedd rhanddeiliaid yn llai hyderus yng nghyrhaeddiad yr NPS y tu hwnt i adrannau a gwasanaethau awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldebau uniongyrchol am ymgysylltu â phlant a phobl ifanc. Credwyd bod gwelededd ac ymwybyddiaeth o'r NPS yn amrywio'n sylweddol ymhlith y gweithlu ehangach, ynghyd ag amrywiadau yn y lefel ganfyddedig o gefnogaeth ymhlith uwch arweinwyr. Adlewyrchwyd yr heriau hyn hefyd ymhlith y mathau eraill o sefydliadau sector cyhoeddus a ymatebodd i'r adolygiad, gyda chydabyddiaeth bod gwahaniaethau amlwg yn y camau sydd eu hangen i ymgorffori'r NPS ar draws awdurdod lleol mawr o'i gymharu â sefydliadau llai, gwasanaethau awdurdod lleol unigol penodol, neu elusennau.

Er bod rhai awdurdodau lleol wedi cefnogi'r Safonau, roedd angen mwy o gyfarwyddyd a chanllawiau ar sut i feithrin capasiti o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus i fabwysiadu'r NPS, gan gynnwys lle mae lefelau ymwybyddiaeth a phrofiad o gefnogi cyfranogiad plant yn isel. Teimlwyd hefyd y gallai Llywodraeth Cymru herio awdurdodau lleol yn gryfach i ddangos sut maen nhw'n hyrwyddo ac yn hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc, y tu hwnt i gyfranogiad gwirfoddol mewn cynlluniau lleol neu genedlaethol, gan gydnabod mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am eu gweithredu.

Rôl Siarter yr NPS a'r Nod Barcud

Yn gyffredinol, roedd Siarter yr NPS a'r Nod Barcud yn cael eu hystyried yn ffafriol gan ymatebwyr fel un o nifer o fecanweithiau i gefnogi gweithrediad yr NPS. Ymhlith y sefydliadau sector cyhoeddus sydd 'eisoed yn ymgysylltu', gwelwyd bod y Siarter a'r Nod Barcud yn fuddiol wrth gael cyfranogiad plant a phobl ifanc ar radar sefydliadau eraill ac ychwanegu pwysau at ymdrechion lleol i weithredu'r NPS trwy gynllun â brand a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a Phlant yng Nghymru. Cynigiodd ddylanwad ychwanegol posibl gyda rhanddeiliaid drwy ddangos bod y sefydliad wedi addo ymrwymiad i'r NPS a sicrhau bod proses gydnabyddedig ar gyfer gweithredu. Ystyriwyd eglurder y Siarter a symlrwydd y broses ymgeisio yn gadarnhaol yn hyn o beth.

Lle'r oedd sefydliadau wedi meddu ar y Siarter a'r Nod Barcud yn flaenorol, roedd y manteision pendant yn cynnwys hygyrdded proffesiynol cryfach wrth eiriol dros hawliau a chyfranogiad plant gyda rhanddeiliaid eraill, a chydgrynhoi ac atgyfnerthu arfer o ansawdd uchel. Er bod gofyn am ymrwymiad amser sylweddol, roedd gan y gofynion tystiolaeth ar gyfer y Nod Barcud y fantais o annog hunanfyfyrion beirniadol ac roeddent wedi ysgogi camau gweithredu i fynd i'r afael â bylchau yn y gwaith o weithredu'r NPS. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd rôl yr Arolygydd Ifanc ym mhroses Siarter yr NPS a'r Nod Barcud, gan nodi ei bod yn darparu atebolrwydd gweladwy, ond mynegasant bryderon hefyd ynghylch y cyfranogiad parhaus cyfyngedig ar lefel lleol y tu hwnt i'r her a ddarperir gan y timau Arolygwyr Ifanc.

Y tu hwnt i'r enghreifftiau hyn, canfu'r adolygiad lefelau cymysg o ymwybyddiaeth o Siarter yr NPS a'r Nod Barcud ymhlith sefydliadau'r sector cyhoeddus a gymerodd ran yn yr

ymchwil. Mewn rhai achosion, roedd y sefydliad wedi meddu ar y Siarter neu'r Nod Barcud yn flaenorol ond roedd cyfrifoldebau'n gorwedd o fewn tîm neu adran wahanol, neu roedd trosiant staff wedi digwydd. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth gyfyngedig ar gael. Ymhlith y sefydliadau a oedd wedi penderfynu yn erbyn gwneud cais am statws Nod Barcud, y prif ffactor oedd y cymhlethdod canfyddedig a'r ymrwymiad amser dan sylw. Heb dystiolaeth gliriach o fanteision cymharol dal y Nod Barcud, nid oedd uwch arweinwyr wedi cael eu hargyhoeddi gan yr achos i fuddsoddi adnoddau. Roedd eraill yn edrych yn ffafriol ar y Nod Barcud ac yn awgrymu y byddai'r sefydliad yn debygol o ystyried gwneud cais pe bai'r cynllun yn cael ei ailagor. Roedd set arall o sefydliadau o'r farn nad oedd angen dilyn llwybr y Nod Barcud ar ôl buddsoddi mewn cynlluniau amgen â nodau tebyg o ran hawliau a chyfranogiad plant a phobl ifanc.

Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at sawl cyfyngiad yn nyluniad a graddfa bresennol Siarter yr NPS a'r Nod Barcud. Nododd rhanddeiliaid y bwlch rhwng cyffyrddiad ysgafn statws Siarter a'r nod terfynol o gyflawni'r Nod Barcud. Y farn oedd bod y Siarter yn brin o gyfeiriadedd at weithredu, gan ei bod yn ddatganiad o ymrwymiad i'r NPS yn hytrach nag yn fodd gweladwy o feincnodi cynnydd cyfredol. Mewn cyferbyniad, roedd y broses o gael y Nod Barcud yn gam mawr ymlaen o ran ymrwymiad. O'u hystyried ar y cyd, mae rhywfaint o risg y gallai'r strwythur atgyfnerthu'r anghydraddoldebau presennol o ran capasiti lleol a blaenoriaethu'r NPS. Yng nghyd-destun awdurdodau lleol yn arbennig, teimlwyd bod hyn yn brin o degwch a chyfiawnder yn yr hyn y gallai plant a phobl ifanc ei ddisgwyl gan wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Mae'r adolygiad hefyd yn awgrymu bod y cynllun wedi dioddef oherwydd cyfleoedd cyfyngedig i rannu arferion gorau ac i ddysgu o waith sefydliadau eraill. Roedd awydd clir i rannu gwybodaeth a chefnogaeth gan gymheiriaid, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddarperir gan Plant yng Nghymru o amgylch y prosesau ymgeisio ac asesu. Mae diffyg monitro a gwerthuso camau a gymerir ar lefel leol i hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc wedi creu rhwystr i asesu rôl a chyfraniad y Siarter a'r Nod Barcud. O'r herwydd, mae'n anodd cymharu effeithiolrwydd y cynllun yn wrthrychol â modelau lleol amgen, er gwaethaf enghreifftiau astudiaethau achos addawol. Er y byddai braidd yn annheg cymharu'r cynllun â rhaglen a gefnogir yn rhyngwladol fel Menter Dinasoedd sy'n Gyfeillgar i Blant UNICEF, mae'r olaf yn darparu enghraifft o sut y gall offer sydd wedi'u hymgorffori ar gyfer monitro ac adborth gryfhau'r sylfaen dystiolaeth.

Datblygiad yn y dyfodol

At ei gilydd, mae'r adolygiad yn dangos y gallai Siarter yr NPS a'r Nod Barcud chwarae rhan barhaus fel un o nifer o fecanweithiau i gefnogi a herio sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru i weithredu'r NPS. Mae'r oedi diweddar yn cyflwyno'r anfantais o golli rhywfaint o fomentwm i'r cynllun. Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae'n rhoi cyfle i fynd i'r afael â rhai o'r meysydd canfyddedig ar gyfer datblygu a mireinio.

Wrth fyfyrion ar yr adolygiad llenyddiaeth a'r canfyddiadau ansoddol, mae sawl thema allweddol yn dod i'r amlwg:

- **Gwahaniaethu** - roedd neges glir o'r cyfweiliadau nad yw un math yn addas i bawb, ac y byddai cynllun Siarter yr NPS a'r Nod Barcud yn elwa o sgaffaldiau ychwanegol a cherrig milltir dros dro i ddathlu cynnydd gyda gweithredu'r NPS yn eu herbyn. Dangosodd yr adolygiad llenyddiaeth fod y rhan fwyaf o'r cynlluniau dogfenedig effeithiol yn mabwysiadu dull haenog. Gallai model dyfarniadau Aur, Arian, Efydd gyd-fynd yn well â nodweddion cynlluniau effeithiol yn y llenyddiaeth, gan ddarparu ar gyfer sefydliadau mewn gwahanol gamau o ddatblygiad, a dilysu'r daith o gynnydd cynnar i ragoriaeth. Gallai hyn gynnwys meini prawf barnu sy'n tystio i gynnydd yn erbyn 7 safon yr NPS ar y lefelau priodol (Aur, Arian, Efydd), er mwyn gwahaniaethu rhwng disgwyliadau gofynnol ac arferion enghreifftiol. Gall canllawiau atodol hefyd fod o fudd i sefydliadau'r sector cyhoeddus heblaw awdurdodau lleol, wedi'u teilwra i gyd-destun eu gwasanaeth (e.e. iechyd, troseddu, addysg).
- **Cwmpas** – mae'r adolygiad yn dangos bod y nifer sy'n ymuno â Siarter yr NPS a'r Nod Barcud ac sy'n gweithredu fel llysgenhadon wedi canolbwyntio ar sefydliadau neu wasanaethau sydd â chylch gwaith ac arbenigedd clir ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae hyn yn gwbl briodol ac mae wedi helpu i sicrhau bod ymdrechion cyfranogiad yn cael eu harwain gan y rhai sydd â dealltwriaeth o hawliau plant, diogelu ac offer a mecanweithiau sy'n briodol i oedran. Ar yr un pryd, mae'r adolygiad yn dangos bod ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad â'r NPS yn aml wedi methu o fewn sefydliadau neu wasanaethau yn y sector cyhoeddus ehangach. Fel gyda llawer o'r ymchwil ar y pwnc hwn, mae'r dystiolaeth yn awgrymu diffyg ymwybyddiaeth o hawliau plant a chyfranogiad ymhlith gwasanaethau ehangach, diffyg perthnasedd canfyddedig, a bylchau mewn sgiliau a chymwyseddau ar gyfer cyfranogiad. Mae hyn yn debygol o olygu bod angen cyfuniad o sicrhau cefnogaeth ar lefel strategol drwy godi ymwybyddiaeth ar gyfer BGCau a BGRhau, a dathlu enghreifftiau o arfer da o waith traws-sector i ddangos yr hyn y gellir ei gyflawni.
- **Atebolrwydd** - canfu'r adolygiad fod rhanddeiliaid wedi croesawu hyblygrwydd, gan deilwra mesurau i gefnogi gweithredu'r NPS yn ôl anghenion lleol. Mae hyn wedi profi'n fuddiol mewn sawl ffordd, i ddarparu ar gyfer ystod eang o fathau a lleoliadau sefydliadol. Ar yr un pryd, cydnabuwyd yr angen am fecanweithiau atebolrwydd cryfach i helpu i sefydlu lefel ddisgwyliad gofynnol ac i ddarparu her ochr yn ochr â chefnogaeth. Mae achos dros i Lywodraeth Cymru ystyried sut neu a allai sefydliadau'r sector cyhoeddus, ac awdurdodau lleol yn benodol, gael eu herio ymhellach i ddangos cynnydd gyda gweithredu'r NPS. Mae cynllun Siarter a Nod Barcud wedi'i ail-lansio gyda phroffil uwch yn cynnig ffordd bosibl o wobrwyo rhagoriaeth wrth roi cymhelliant i sefydliadau eraill ddilyn eu hesiampl.
- **Adeiladu capasiti** – adroddodd staff y sector cyhoeddus eu bod yn gweithredu yng nghyd-destun cyllidebau cyfyngedig a blaenoriaethau cystadleuol a bod galw am offer ac adnoddau i'w cefnogi yn eu rôl yn eiriol dros yr NPS. Ochr yn ochr â'r gefnogaeth a ddarparwyd eisoes gan Plant yng Nghymru, gwnaed achos dros becyn cymorth gyda rhestrau gwirio, templedi adrodd, ac enghreifftiau o arfer da i gyfleu'r hyn sydd ei angen i gyrraedd y safonau i adrannau prysur, ac i helpu i sicrhau cysondeb a chynaliadwydd ar draws timau. Tynnwyd sylw hefyd at hyfforddiant i Swyddogion Cyfranogiad o fewn

sefydliadau'r sector cyhoeddus ynghylch y prosesau Siarter a Nod Barcud i ymgorffori gwybodaeth a'i rhannu o fewn eu sefydliadau eu hunain fel cam adeiladu capasiti a allai helpu gyda chynaliadwyedd.

- **Tystiolaeth** - mae cynlluniau effeithiol yn y llenyddiaeth yn 'fesuradwy ac yn cael eu dathlu'. Mae'r agwedd fesur yn ddiffyg cymharol yn Siarter yr NPS a'r Nod Barcud hyd yn hyn. Pe bai'r cynlluniau'n cael eu diweddarau a'u rhoi ar waith o'r newydd, byddai'n fuddiol comisiynu gwerthusiad annibynnol llawn o'r cynlluniau i gasglu tystiolaeth empirig ychwanegol o'u heffeithiolrwydd a'u canlyniadau. Mae hyn yn dilyn gwaith a wnaed i werthuso rhaglenni cyfatebol sy'n seiliedig ar hawliau yng Nghymru, fel Ysgolion Iach Cymru. Byddai gwerthusiad annibynnol hefyd o gymorth i gynhyrchu astudiaethau achos a thystiolaethau i gryfhau gwaith timau cyfranogiad lleol wrth eiriol dros yr NPS gydag uwch arweinwyr. Mae cefnogaeth gyda hunanwerthuso a chasglu tystiolaeth hefyd yn agwedd bwysig ar adeiladu capasiti, fel y nodir uchod, tra byddai rhanddeiliaid hefyd yn amlwg yn croesawu cysylltiadau pellach â sefydliadau eraill, gan ymgymryd â dysgu gan gymheiriaid a rhannu arferion. Mae Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Cymru Gyfan (AWPWN) yn cynnig llwybr posibl ar gyfer hyn.
- **Lleisiau plant a phobl ifanc** - adlewyrchwyd cyfranogiad plant a phobl ifanc yn natblygiad yr NPS yn ogystal â bod yn destun y safonau unigol, a groesawyd yn eang gan rhanddeiliaid a oedd yn hyrwyddo'r NPS ar lefel lleol. Fodd bynnag, mae gan y model Siarter a Nod Barcud presennol rai cyfyngiadau. Roedd consensws bod model yr Arolygydd Ifanc, er ei fod yn cael ei werthfawrogi'n fawr, heb ei ehangu ar hyn o bryd i ddiwallu anghenion cynllun estynedig. Nododd rhanddeiliaid flaenoriaeth i adolygu digonolrwydd yr adnoddau ar gyfer recriwtio, hyfforddi a goruchwyllo Arolygwyr Ifanc, ac i ehangu'n gymesur, pe bai'r cynllun cenedlaethol yn cael ei ailsefydlu.

Byddai'n fuddiol ailystyried ac ystyried ailgydbwysu'r dimensiwn cenedlaethol-lleol, fel bod tîm yr Arolygwr Ifanc yn cydweithio â strwythurau plant ac ieuenctid lleol i gyrraedd eu hasesiadau o gynnydd yr NPS, gan dynnu ar wybodaeth lleol a phrofiadau bywyd y rhai y mae gwasanaethau lleol yn atebol iddynt yn y pen draw. Byddai hyn yn gyfle addas i adlewyrchu safbwyntiau amrywiol plant a phobl ifanc a allai fod heb ddigon o wasanaeth neu'n cael eu clywed yn anaml yn eu cyd-destun lleol, gan osgoi rhoi baich ar y cohortau Arolygwyr Ifanc cenedlaethol i gynrychioli pob plentyn yng Nghymru.

- **Gwelededd a lledaeniad** – gan ystyried effeithiolrwydd model dyfarniadau 'cydnabyddiaeth ynghyd â lledaenu' yn y llenyddiaeth, gellid gwella momentwm Siarter yr NPS a'r Nod Barcud yn sylweddol drwy gysylltu'r broses â dathliadau mwy gweladwy o gyflawniadau. Byddai digwyddiad gwobrwyo blynyddol yn darparu ffordd o osod yr NPS ar y calendr, ac yn ffordd i dimau cyfranogiad lleol ddod â chynrychiolwyr o wasanaethau neu adrannau eraill ynghyd fel bod budd cyffredin a rhannu mewn llwyddiant y tu hwnt i Wasanaethau Plant ac Ieuenctid yn unig. Gan fod y cynllun wedi cael ei oedi, gallai ail-frandio ac ail-lansio hefyd helpu i hybu gwelededd a sefydlu troedle i'r cynllun ymhlith dyfarniadau a rhaglenni eraill.

Meddyliau terfynol

Mae'r adolygiad yn dod i'r casgliad bod rhinwedd mewn defnyddio siarteri, cynlluniau achredu a dyfarniadau a bod gan y modelau hyn rôl bosibl wrth gefnogi gweithrediad yr NPS yn y dyfodol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i wneud y gorau o'r dysgu o gynlluniau cymharol, tra hefyd yn ymestyn ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc i ddatblygu model sy'n rhoi eu hanghenion a'u diddordebau yn y canol.

Gyda'r cynllun wedi'i oedi ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn y pen draw yn wynebu dewis rhwng:

- a) ail-frandio ac ail-lansio Siarter yr NPS a'r Nod Barcud ar hyd llinellau'r model presennol.
- b) cyfnod ailgynllunio, gan adeiladu ar ymgynghori a chyd-gynllunio pellach gyda phlant a phobl ifanc, ac o bosibl cynnwys addasiadau i'r strwythur achredu, y prosesau asesu a monitro i alinio ag arferion gorau wedi'u dogfennu.
- c) rhoi'r gorau i'r cynllun o blaid mecanweithiau amgen ar gyfer cefnogi sefydliadau'r sector cyhoeddus i weithredu'r NPS, ochr yn ochr â gwybodaeth a chyfeirio at gynlluniau a mentrau â brand eraill y gallai awdurdodau lleol fod eisiau eu hystyried.

Efallai y bydd Llywodraeth Cymru am gynnwys ymgynghoriad pellach i benderfynu ar y cyfluniad gorau posibl o gynlluniau, dyfarniadau a chymhellion i gefnogi gweithredu'r NPS, gan gynnwys cyflwyno opsiynau penodol i'w gwerthuso. Bydd unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol yn gofyn am gyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc, fel bod eu hanghenion a'u blaenoriaethau'n cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf.

Atodiad A: Fframwaith dadansoddol

Nodau	Amcanion	Cwestiynau ymchwil		Dewis dull			
			Ymchwil cwmpasu	Adolygiad llenyddiaeth (REA)	Cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol	Cyfweliad/ grŵp ffocws CYP	Dadansoddi ac adrodd
Nod un: Adolygu tystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd siarteri, cynlluniau achredu a dyfarniadau wrth gefnogi sefydliadau i ymgorffori dulliau cenedlaethol yn ymarferol. Bydd yr agwedd hon ar yr ymchwil yn syntheseiddio llenyddiaeth allweddol i ddeall nodweddion y dulliau mwyaf effeithiol o fewn y sector cyhoeddus.	Amcanion 1, 3 a 4	1.1 Pa gynlluniau sydd wedi cael eu rhoi ar waith yng Nghymru ac mewn gwledydd cymharol, i gefnogi sefydliadau i ymgorffori hawliau plant a chyfranogiad plant yn ymarferol?	X	X			
		1.2 Beth yw nodweddion allweddol y cynlluniau hyn, a sut maen nhw'n cael eu targedu a'u gweithredu?	X	X			
		1.3 Beth yw cryfder y dystiolaeth o'u heffeithiolrwydd cymharol, a'u cyfraniad at ymgorffori hawliau plant a chyfranogiad plant mewn gwasanaethau cyhoeddus?	X	X			
		1.4 Beth yw'r gwersi a ddysgwyd am ddulliau llwyddiannus ar gyfer prif ffyrddio dulliau sy'n seiliedig ar hawliau plant, y tu hwnt i dimau neu adrannau sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus?	X	X			
		1.5 Pa wersi y gellir eu dysgu o sectorau eraill, ynghylch effeithiolrwydd siarteri, cynlluniau achredu a dyfarniadau wrth gefnogi sefydliadau i ymgorffori dulliau cenedlaethol mewn gwasanaethau a lleoliadau lleol?	X	X			
		1.6 Beth ellir ei gasglu o'r llenyddiaeth ynghylch arferion gorau sydd â'r potensial i'w mabwysiadu wrth gefnogi gweithrediad yr NPS yng Nghymru?	X	X			X
Nod dau: Ymgymryd â dulliau ansoddol gyda sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc er mwyn deall: - y rhwystrau sy'n atal sefydliadau rhag mabwysiadu Siarter yr NPS a'r Nod Barcud, gan atal defnydd o'r cynlluniau - i ba raddau y mae'r Siarter a'r Nod Barcud yn cefnogi	Amcanion 2, 3 a 4	2.1 Beth yw lefelau cyffredinol ymwybyddiaeth a gwybodaeth am yr NPS ymhlith sefydliadau'r sector cyhoeddus ac o fewn awdurdodau lleol yn benodol?	X		X		
		2.2 Sut mae'r NPS yn cael eu cymhwyso'n ymarferol, a pha ffactorau sy'n dylanwadu ar gwmpas a graddfa'r gweithrediad?	X		X		
		2.3 Pa ffactorau sy'n dylanwadu ar benderfyniadau a ddylid mabwysiadu'r Nod Barcud neu'r Siarter a'r rhesymau dros fabwysiadu fframweithiau neu fodelau amgen?	X		X		
		2.4 Ym mha ffyrdd mae'r Nod Barcud a/neu'r Siarter yn cefnogi sefydliadau i hyrwyddo ac ymgorffori'r NPS ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu gwasanaethau a'u harferion?	X		X		
		2.5 Beth yw'r galluogwyr a'r rhwystrau sy'n bodoli i sefydliadau sydd wedi mabwysiadu a heb fabwysiadu'r Siarter a'r Nod	X		X		

Nodau	Amcanion	Cwestiynau ymchwil		Dewis dull			
			Ymchwil cwmpasu	Adolygiad llenyddiaeth (REA)	Cyfweliadau â rhanddeiliaid allweddol	Cyfweliad/ grŵp ffocws CYP	Dadansoddi ac adrodd
sefydliadau i gyflawni ac ymgorffori'r NPS • y rhesymau pam mae rhai sefydliadau wedi dewis fframweithiau neu fodelau amgen i hyrwyddo cyfranogiad. Ymgymryd â dulliau ansoddol gyda phlant a phobl ifanc sy'n gyfarwydd â phrosesau Siarter yr NPS a'r Nod Barcud er mwyn deall: • rôl plant a phobl ifanc ym mhrosesau Siarter yr NPS a'r Nod Barcud • barn plant a phobl ifanc ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda / llai da ym mhrosesau Siarter yr NPS a'r Nod Barcud		Barcud, a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain i wella'r defnydd ohonynt?					
		2.6 Beth yw'r trefniadau gorau posibl ar gyfer ymgorffori'r NPS yn y dyfodol, a sut mae'r Siarter a'r Nod Barcud yn y sefyllfa orau i sicrhau bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant a phobl ifanc yn cael ei wireddu ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus?	X		X		X
		2.7 Pa rôl mae plant a phobl ifanc yn ei chwarae ym mhrosesau Siarter yr NPS a'r Nod Barcud ac i ba raddau mae eu cyfranogiad yn gwella ansawdd cyfranogiad pobl ifanc?				X	
		2.8 Beth yw canfyddiadau plant a phobl ifanc o'r hyn sy'n gweithio'n dda ym mhrosesau Siarter yr NPS a'r Nod Barcud?				X	
		2.9 Pa heriau neu feysydd i'w gwella y mae plant a phobl ifanc yn eu nodi ym mhrosesau Siarter yr NPS a'r Nod Barcud?				X	

Atodiad B: Protocol adolygu tystiolaeth

Cwestiynau ATC:	1. Pa gynlluniau sydd wedi cael eu rhoi ar waith yng Nghymru ac mewn gwledydd cymharol, i gefnogi sefydliadau'r sector cyhoeddus i ymgorffori hawliau plant a chyfranogiad plant yn ymarferol? 2. Beth yw nodweddion allweddol y cynlluniau hyn, sut maen nhw'n cael eu targedu a'u gweithredu a sut mae heriau a rhwystrau hysbys i'w gweithredu yn cael eu datrys? 3. Sut ac i ba raddau y mae canlyniadau'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro, eu hasesu a'u gwerthuso? 4. Beth yw cryfder y dystiolaeth o'u heffeithiolrwydd cymharol, a'u cyfraniad at ymgorffori hawliau plant a chyfranogiad plant mewn gwasanaethau cyhoeddus? 5. Beth yw'r gwersi a ddysgwyd am dulliau llwyddiannus ar gyfer prif ffrydio dulliau sy'n seiliedig ar hawliau plant, y tu hwnt i dimau / adrannau sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc o fewn sefydliadau'r sector cyhoeddus? 6. Pa wersi y gellir eu dysgu o sectorau eraill, ynghylch effeithiolrwydd siarteri, cynlluniau achredu a dyfarniadau wrth gefnogi sefydliadau i ymgorffori dulliau cenedlaethol?
Dyddiad cyhoeddi:	• 2010 ymlaen¹
Cwmpas daearyddol:	• Cymru, y DU, a gwledydd cymharol rhyngwladol dethol². • Bydd chwiliadau'n dechrau gyda chyd-destun Cymru ac yna chyd-destun ehangach y DU er mwyn sicrhau ein bod yn cipio'r holl lenyddiaeth berthnasol bosibl yn effeithiol.
Grwpiau targed:	• Sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n darparu cynlluniau siarter a dyfarniadau, gan gynnwys: - y rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc 0 -18 oed, hyd at 25 oed ar gyfer anghenion addysgol arbennig ac anableddau (AAAA). - y rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus i grwpiau eraill (cymunedau, oedolion, gweithwyr proffesiynol).
Iaith:	• Cyhoeddwyd yn Saesneg neu yn Gymraeg.
Math o astudiaeth:	• Cyfarwydddebau polisi; deddfwriaeth; dogfennau rhaglen; astudiaethau academaidd ac anacademaidd a/neu adroddiadau gwerthuso; gan ganolbwyntio'n bennaf ar lenyddiaeth gyhoeddgedig.
Pwnc astudio:	• Siarteri, cynlluniau a safonau drwy bolisi, arfer ac ymchwil, yn canolbwyntio ar berthnasedd, effaith, effeithiolrwydd, beth sy'n gweithio, arferion da, a chanlyniadau.
Ffynonellau:	• <u>Gwefannau cyrff cyhoeddus y DU</u>: Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Ymchwil ac Ystadegau GOV.UK, Cyngor Ieuenctid Prydain, Senedd Ieuenctid Cymru. • <u>Gwefannau sefydliadau annibynnol a thrydydd sector</u>: Achub y Plant DU / Achub y Plant Cymru, Barnardo's / Barnardo's Cymru, Gweithredu dros Blant / Gweithredu dros Blant (Cymru), NYAS Cymru, TGP Cymru, Plant yng Nghymru/Gogledd Iwerddon/Yr Alban, Biwro Cenedlaethol y Plant / NCB Cymru, Sefydliad Joseph Rowntree, a Sefydliad Nuffield, a'r Comisiynwyr Plant priodol (Cymru, Lloegr, Yr Alban, a Gogledd Iwerddon), UNICEF.

¹ Rydym yn cynnig ystyried adroddiadau cynharach dim ond lle mae'r rhain yn astudiaethau neu'n werthusiadau o'r ansawdd uchaf / nodedig.

² Y tu allan i'r DU, ceisir enghreifftiau o wledydd Saesneg eu hiaith sydd â seilwaith gwasanaethau cyhoeddus cymharol, gan gynnwys gwledydd yr OECD. Mae enghreifftiau'n cynnwys: Iwerddon, Seland Newydd, Canada, a Singapore.

	• <u>Gwefannau sefydliadau rhyngwladol a chyrrff cyhoeddus</u>: OECD, UNESCO, y Comisiwn Ewropeaidd (Europa), Cyngor Ewrop, a gwefannau cysylltiedig, a gwefannau cyrrff cyhoeddus mewn gwledydd cymharol (Saesneg eu hiaith) y tu allan i'r DU. • <u>Cronfeydd data crynodebau chwiliadwy</u>: Children, Youth and Environments, Web of Science, International Bibliography of the Social Sciences, Education Resources Information Center (ERIC), Children and Society, a'r International Journal of Children's Rights. • <u>Rhestrau cyhoeddiadau arbenigwyr pwnc</u> sydd wedi'u cydnabod yn rhyngwladol. • <u>Peiriannau chwilio ehangach</u> fel Google a Google Scholar.
Termau chwilio	• Bydd geiriau allweddol i gefnogi'r chwiliad yn cynnwys: "child(ren)", "child rights", "youth", "young people", "participation", "engagement", "UNCRC", "Article 12", "charter", "kitemark", "quality mark", "award" and "accreditation", "self-assessment"

Atodiad C: Cynlluniau enghreifftiol a gwledydd cyfatebol

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cynlluniau a grybwyllir yn benodol fel enghreifftiau allweddol yn adran 3. 'Canfyddiadau o'r adolygiad tystiolaeth'.

Cynllun	Gwlad
Cynllun Beacon /Dyfarniad Cyngor Beacon	DU
Siarter Rhianta Corfforaethol: Addewid i Gymru	Cymru
Eco-Sgolion – Cymru	Cymru
Dyfarniad Rheoli Arloesol IPAC	Canada
Dyfarnid Ansawdd Cenedlaethol	Cymru
Marc Gwasanaeth Cwsmeriaid o Ansawdd (QCS)	Gweriniaeth Iwerddon
Dyfarniad Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid	Cymru
Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau (RRSA)	DU
Y Siarter Iaith	Cymru
Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru	Cymru
Dyfarniad Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion (YCiS)	Lloegr

Atodiad D: Offer casglu data (yn Saesneg)

- Canllaw pwnc rhanddeiliaid awdurdod lleol
- Canllaw pwnc cyrff cyhoeddus eraill

Adolygiad o Siarter y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a'r Nod Barcud dros Blant a Phobl Ifanc

Canllaw pwnc ar gyfer cyfweiliadau â chynrychiolwyr awdurdodau lleol

Cyflwyniad

Diolch i chi am gytuno i siarad â mi heddiw.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Ecorys i gynnal ymchwil sy'n archwilio gweithrediad Siarter y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol (NPS) a'r Nod Barcud dros Blant a Phobl Ifanc. Nod yr astudiaeth yw archwilio:

- y rhwystrau sy'n atal sefydliadau rhag mabwysiadu Siarter yr NPS a'r Nod Barcud, gan atal defnydd o'r cynlluniau
- i ba raddau y mae'r Siarter a'r Nod Barcud yn cefnogi sefydliadau i gyflawni ac ymgorffori'r NPS
- y rhesymau pam mae rhai sefydliadau wedi dewis fframweithiau neu fodelau amgen i hyrwyddo cyfranogiad.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn cynnal cyfweiliadau/grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid allweddol ar lefelau cenedlaethol a lleol ac yn adolygu'r llenyddiaeth ar siarteri, cynlluniau achredu a dyfarniadau. Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn adroddiad terfynol yn hydref 2025, y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ei gyhoeddi ar ei gwefan.

Dylai ein trafodaeth heddiw bara rhwng 45 munud ac 1 awr, gan archwilio eich barn ar y canlynol:

- Cyd-destun cefndirol hawliau plant a chyfranogiad plant yng Nghymru
- Trefniadaeth cyfrifoldebau yn eich sefydliad
- Profiadau o weithredu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol
- Barn a phrofiadau o'r Nod Barcud a'r Siarter Cenedlaethol
- Blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer ymgorffori'r safonau a chodi ymwybyddiaeth o hawliau plant

Sut y bydd gwybodaeth yn cael ei defnyddio a'i storio

Bydd y wybodaeth yr ydych yn ei rhannu gyda ni yn cael ei defnyddio i lywio ein canfyddiadau, y byddwn yn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy adroddiadau.

Caniatâd i recordio: Gyda'ch caniatâd, hoffem recordio'r cyfweiliad/grŵp ffocws. Bydd y recordiad yn cael ei storio'n ddiogel a dim ond y tîm ymchwil fydd yn cael mynediad iddo, er mwyn darparu pwynt cyfeirio ychwanegol i fy nodiadau a chyfle i wirio yn ôl er mwyn cofnodi dyfyniadau yn llawn.

Natur wirfoddol cyfranogiad: Eich dewis chi yw cymryd rhan yn yr ymchwil hwn ac os penderfynwch nad ydych chi eisiau cymryd rhan mwyach, rhowch wybod i dîm ymchwil Ecorys drwy e-bostio rheolwr y prosiect ymchwil, Gabriela Freitas (rhannwch y cyfeiriad e-bost canlynol: gabriela.freitas@ecorys.com).

Anhysbysrwydd: Bydd pob unigolyn sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil hwn yn aros yn anhysbys, sy'n golygu na fyddwch yn cael eich enwi na'ch adnabod fel arall mewn unrhyw adroddiadau a gyflwynir i Lywodraeth Cymru. Efallai y byddwn yn defnyddio dyfyniadau dienw yn yr adroddiadau a'r cyflwyniadau. Byddwn yn cymryd camau i wneud allbynnau'r adroddiadau'n ddienw, fel na ellir eich adnabod.

Cyfrinachedd: Dim ond y tîm ymchwil fydd yn gwybod beth rydych chi wedi'i ddweud. (Os ydych chi mewn grŵp ffocws – gofynnwch i bawb barchu anhysbysrwydd ei gilydd.)

Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei phrosesu gan Ecorys UK a'i bartneriaid o dan delerau Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd a gawsoch pan drefnwyd y cyfweiliad (dylai'r ymchwilydd ddarparu hwn os nad yw'r cyfranogwr wedi'i weld).

Cyd-destun cefndirol

1. A allwn ni ddechrau gyda throsolwg byr o'ch rôl a'ch cefndir proffesiynol?
2. *Sut mae cyfrifoldebau dros gynnal ymrwymadau i'r CCUHP a dros hawliau plant a chyfranogiad plant wedi'u trefnu o fewn eich awdurdod lleol? Archwiliwch y canlynol:
 - a. Pwy sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros hawliau plant yn eich sefydliad?
3. I ba raddau y mae'r heriau o ran gwireddu hawliau plant a chyfranogiad plant a phobl ifanc wedi esblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru?
 - a. Pa heriau a chyfleoedd y mae hyn wedi'u cyflwyno?
 - b. Sut mae eich awdurdod lleol wedi ymateb?

Bodloni'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol³

³ Cyfeiriwch at ddogfen un dudalen yr NPS. Mae'r safonau'n ymwneud â: 1) Gwybodaeth, 2) Chia Biau'r Dewis, 3) Dim Gwahaniaethu, 4) Parch, 5) Bod Ar Eich Ennill, 6) Adborth a 7) Gweithio'n well drosodd chi.

4. O'ch safbwynt chi, pa mor glir a chydlynol yw'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a'r rhwymedigaethau sydd ar awdurdodau lleol i'w bodloni? [RN: cael dogfen un dudalen yr NPS yn barod i'w rhannu ar y sgrin os oes angen]
5. Pa gamau ymarferol ydych chi wedi'u cymryd i sicrhau bod y Safonau'n cael eu bodloni? Pwy sydd wedi bod yn rhan o hyn a beth yw'r goblygiadau o ran adnoddau?
6. *Beth fu'r prif alluogwyr a'r rhwystrau i gyflawni'r Safonau? Archwiliwch:
 - a. A yw rhai gofynion a gyflwynir gan yr NPS yn fwy heriol i'w gweithredu neu'n anoddach i'w dangos nag eraill
 - b. Heriau sy'n deillio o ymgorffori ar draws y sefydliad (h.y. adrannau mwy arbenigol sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc fel gwasanaethau ieuencid, yn hytrach na phrif ffrydio ar draws adrannau lle mae materion plant a phobl ifanc yn fwy ymhlyg, e.e. trafnidiaeth, tai)
7. I ba raddau mae'r Safonau'n hysbys ac yn cael eu deall yn eang ymhlith y gweithlu?
 - a. Pa gamau a gymerir i godi ymwybyddiaeth a gyda pha raddau o lwyddiant?
8. *Pa fathau o fonitro neu adborth ydych chi'n eu casglu, i asesu cynnydd gyda gweithredu'r Safonau?
9. *I ba raddau ydych chi wedi gweld manteision i'r gweithlu ac i blant a phobl ifanc o ganlyniad i fodloni'r Safonau?
 - a. A oes tystiolaeth eu bod yn cefnogi plant a phobl ifanc i gael eu clywed a chael dweud eu dweud mewn materion sy'n effeithio arnynt, o fewn eich awdurdod lleol?
 - b. Oes gennych chi unrhyw enghreifftiau ymarferol i ddangos hyn?
10. *I ba raddau y mae arferion da a dysgu sy'n ymwneud â'r Safonau yn cael eu rhannu ar hyn o bryd rhwng awdurdodau lleol, a chyda sefydliadau eraill yng Nghymru?
 - a. Beth fu'r manteision?
 - b. Beth arall, os o gwbl, fyddai o gymorth?

Cynlluniau Siarter Genedlaethol a Nod Barcud

Barn gyffredinol ar gynlluniau'r Siarter a'r Nod Barcud

11. *Hoffem nawr drafod y Siarter a'r Nod Barcud yn fanylach. A allech chi ddweud wrthyf pa mor gyfarwydd ydych chi â'r Siarter a'r Nod Barcud os gwelwch yn dda?
 - a. [os nad yw'r cyfranogwr yn gyfarwydd, esboniwch]: Gall sefydliadau ymuno â'r Siarter yn wirfoddol i ddangos eu hymrwymiad i'r NPS dros gyfnod o 2 flynedd. Yna gallant ail-ymgeisio i'r Siarter, neu gallant wneud cais i'r Nod Barcud. Mae

hwn yn ddyfarniad sy'n cydnabod llwyddiant sefydliadau i weithredu'r 7 Safon, sy'n cynnwys proses hunanasesu ac asesiad gan Arolygwyr Ifanc.

Mae fy set gyntaf o gwestiynau yn canolbwyntio ar y Siarter:

12. Beth yw eich barn gyffredinol ar werth y Siarter, fel ffordd o ddangos ymrwymiad i gyrraedd y Safonau?
13. I ba raddau mae gofynion presennol y Siarter yn briodol ac yn gymesur â'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i'w bodloni?
 - a. [RN: mae proses y Siarter yn cynnwys darparu datganiad ysgrifenedig o fwriad i weithio yn unol â'r NPS cenedlaethol am 2 flynedd. Unwaith y bydd y Siarter wedi'i llofnodi, bydd y sefydliadau neu'r gwasanaethau'n cael eu rhestru ar wefan Plant yng Nghymru a Chymru Ifanc, a gellir arddangos y Siarter ar draws eu cyfleusterau]
14. *Beth yw'r prif ffactorau o blaid ac yn erbyn i sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n dymuno cofrestru ar gyfer statws Nod Barcud?

Mae fy set nesaf o gwestiynau yn canolbwyntio ar y Nod Barcud:

15. Beth yw eich barn gyffredinol ar werth cael dyfarniad Nod Barcud Cenedlaethol, fel ffordd o ddilysu a dathlu gwaith awdurdodau cyhoeddus sy'n bodloni'r Safonau?
16. Pa agweddau ar osod safonau a mesur ddylai fod ar lefelau cenedlaethol yn erbyn lefelau lleol?
17. I ba raddau mae'r gofynion presennol ar gyfer y Nod Barcud Cenedlaethol yn briodol ac yn gymesur o ran yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i'w bodloni?
 - a. [RN: Mae hyn yn cynnwys hunanasesiad lle mae'n rhaid i sefydliadau ddarparu tystiolaeth i ddangos eu bod wedi cyflawni pob un o'r 7 Safon. Unwaith y bydd hwn wedi'i gyflwyno, cynhelir archwiliad gan dîm o Arolygwyr Ifanc.]
18. *Beth yw'r prif ffactorau o blaid ac yn erbyn i sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n dymuno cofrestru ar gyfer statws Nod Barcud?

Nawr, gan feddwl am y Siarter a'r Nod Barcud:

19. *I ba raddau y mae ymdrechion i weithredu a hyrwyddo'r NPS / Siarter / Nod Barcud wedi ystyried anghenion plant a phobl ifanc o wahanol oeddrannau, anghenion ac amgylchiadau? Archwiliwch:
 - a. A yw sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gynhwysol o ran rhywedd yn eu dull gweithredu?
 - b. [Sut] mae ymdrechion cyfranogiad lleol yn bodloni anghenion plant a phobl ifanc: sydd â phrofiad o ofal? sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?

20. A oes unrhyw enghreifftiau o arferion da i'w rhannu?

Profiadau o gymryd rhan yn y cynlluniau

[RN: Noder bod y cwestiynau yn yr adran hon yn seiliedig ar ymwneud sefydliadau'r sector cyhoeddus â'r Siarter, y Nod Barcud a'r rhai nad ydynt wedi cymryd rhan o gwbl. Gofynnwch gwestiynau yn yr is-adrannau yn unig sy'n berthnasol i'r sefydliad rydych chi'n ei gyfweld.]

Ar gyfer awdurdodau lleol sydd wedi meddu ar statws Siarter

21. Sut a phryd y gwnaeth eich awdurdod lleol ystyried cais i'r Siarter?

- a. Beth a ysgogodd fwrw ymlaen â'r penderfyniad?
- b. Beth oeddech chi'n anelu at ei gyflawni?

22. Pa mor hawdd neu anodd oedd y broses o gael y statws Siarter?

- a. Pa agweddau a weithiodd yn dda?
- b. Beth, os o gwbl, y gellid ei wella?

23. Beth fu manteision dilynol statws Siarter i'r awdurdod lleol?

- a. Allwch chi roi unrhyw enghreifftiau?

24. Pa lefelau o ymwybyddiaeth sydd ymhlith y gweithlu o'r Siarter?

25. *Pa ffactorau effeithiodd ar eich penderfyniad i adnewyddu statws y Siarter?

- a. Pam wnaethoch chi / na wnaethoch chi ddewis ail-ymgeisio?
- b. [Os na wnaethon nhw ail-ymgeisio] Beth, os o gwbl, fyddai'n mynd i'r afael â'ch pryderon ac yn eich annog i ailystyried cais?

26. *Pa drefniadau monitro sydd ar waith i sicrhau bod eich awdurdod lleol yn cynnal ei statws Siarter?

27. *[ar gyfer ALLau nad ydynt wedi gwneud cais am statws Nod Barcud] Pa ffactorau a effeithiodd ar eich penderfyniad i beidio â gwneud cais am gofrestrriad Nod Barcud?

- a. Pa ffactorau a ysgogodd eich penderfyniad i beidio â gwneud cais am statws Nod Barcud?
- b. Beth, os o gwbl, fyddai'n mynd i'r afael â'ch pryderon ac yn eich annog i ailystyried cais?

Ar gyfer awdurdodau lleol sydd wedi meddu ar statws Nod Barcud

28. *Sut a phryd y gwnaeth eich awdurdod lleol ystyried cais am statws Nod Barcud?

- a. Pa ffactorau a ysgogodd y penderfyniad i wneud cais am statws Nod Barcud?
 - b. Beth oeddech chi'n anelu at ei gyflawni?
29. Pa mor hawdd neu anodd oedd y broses o gael y Nod Barcud?
- a. Pa agweddau a weithiodd yn dda?
 - b. Beth, os o gwbl, y gellid ei wella?
 - i. Archwiliwch mewn perthynas â:
 - 1. Gofynion tystiolaeth
 - 2. Prosesau asesu ac arolygu
 - 3. Ymgysylltu ag Arolygwyr Ifanc
 - 4. Adborth ar arolygiadau a sut y cafodd hyn ei drin
 - 5. Cefnogaeth gan staff ar draws yr awdurdod lleol
30. *Beth fu manteision dilynol statws Nod Barcud i'ch ALI?
- a. I ba raddau mae'r Nod Barcud wedi cefnogi gweithrediad y Safonau yn ymarferol?
 - b. A oes unrhyw fanteision annisgwyl wedi bod i statws Nod Barcud i'ch ALI?
 - c. Allwch chi roi unrhyw enghreifftiau, gan gynnwys ar gyfer:
 - i. Plant a phobl ifanc (ar draws gwahanol oedrannau a nodweddion)
 - ii. Gweithwyr a rheolwyr cyfranogiad
 - iii. Swyddogion strategol
 - iv. Yr awdurdod lleol ehangach a/neu'r gymuned
31. Pa lefelau o ymwybyddiaeth sydd ymhlith y gweithlu o'r Nod Barcud?

Ar gyfer awdurdodau lleol heb statws Siarter na Nod Barcud

Mae fy set nesaf o gwestiynau yn canolbwyntio'n benodol ar y Siarter a'r Nod Barcud.

- 32. *Pa ffactorau effeithiodd ar eich penderfyniad i beidio â gwneud cais am y cynllun Siarter neu Nod Barcud?
- 33. *Beth, os o gwbl, fyddai'n mynd i'r afael â'ch pryderon ac yn eich annog i ailystyried cais yn y dyfodol?
- 34. Sut mae eich awdurdod lleol yn dangos ei fod yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015), sy'n nodi bod disgwyl i

ALLau 'weithio gyda phartneriaid perthnasol i fabwysiadu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol'?

Offer a dulliau eraill

35. *Pa offer neu ddulliau eraill a ddefnyddir yn eich awdurdod lleol i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant ac i ymgorffori cyfranogiad plant yn unol â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol? Archwiliwch yr is-gwestiynau canlynol:
- a. Sut a phryd y cyflwynwyd y rhain, a beth oedd y cyd-destun?
 - b. Beth fu'r prif fanteision ac anfanteision o'u defnyddio? Pa mor effeithiol ydyn nhw wedi bod, gan gynnwys ar gyfer:
 - i. Plant a phobl ifanc (ar draws gwahanol oedrannau a nodweddion)
 - ii. Gweithwyr a rheolwyr cyfranogiad
 - iii. Swyddogion strategol
 - iv. Yr awdurdod lleol ehangach a/neu'r gymuned
 - c. Allwch chi roi rhai enghreifftiau ymarferol?

Datblygu polisi yn y dyfodol

36. *Yn eich barn chi, pa fath o gefnogaeth sydd fwyaf ei hangen ar lefel genedlaethol i'ch cefnogi i gyflawni eich dyletswyddau mewn perthynas â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol?
37. *I ba raddau hoffech chi weld parhad Siarter Genedlaethol a/neu gynllun Nod Barcud, fel ffordd o gefnogi gweithredu'r Safonau?
38. *Pa agweddau ar y cynlluniau hyn fyddai'n well eu cydlynu ar lefel genedlaethol, a pha rai y dylid eu cydlynu'n lleol?
- a. Beth yw manteision ac anfanteision dulliau cenedlaethol yn erbyn dulliau lleol?
39. *Pa welliannau, os o gwbl, hoffech chi eu gweld i'r Siarter, i wella ei gwerth fel ffordd o annog a dangos ymrwymiad i'r Safonau?
40. *Pa welliannau, os o gwbl, hoffech chi eu gweld i'r Nod Barcud Cenedlaethol a'r prosesau ar gyfer ei gyflawni, i hyrwyddo defnydd ehangach ac i wella ei gyrhaeddiad a'i effeithiolrwydd?
41. *Pa offer neu fesurau amgen, os o gwbl, y dylid eu hystyried yn y dyfodol?
- a. Os felly, beth ydyn nhw a sut / pam y byddai'r rhain yn well?

Dod i ben

42. Oedd yna unrhyw beth arall yr hoffech chi ei rannu nad ydym wedi sôn amdano yn ystod y cyfweiliad?

Diolchwch i'r cyfranogwr, esboniwch y camau nesaf a dewch â'r cyfweliad i ben.

Adolygiad o Siarter y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a'r Nod Barcud dros Blant a Phobl Ifanc

Canllaw pwnc ar gyfer cyfweiliadau/grwpiau ffocws gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus

Cyflwyniad

Diolch i chi am gytuno i siarad â mi heddiw.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Ecorys i gynnal ymchwil sy'n archwilio gweithrediad Siarter y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol (NPS) a'r Nod Barcud dros Blant a Phobl Ifanc. Nod yr astudiaeth yw archwilio:

- y rhwystrau sy'n atal sefydliadau rhag mabwysiadu Siarter yr NPS a'r Nod Barcud,
- i ba raddau y mae'r Siarter a'r Nod Barcud yn cefnogi sefydliadau i gyflawni ac ymgorffori'r NPS
- y rhesymau pam mae rhai sefydliadau wedi dewis fframweithiau neu fodelau amgen i hyrwyddo cyfranogiad.

Dros y misoedd nesaf, byddwn yn cynnal cyfweiliadau/grwpiau ffocws gyda rhanddeiliaid allweddol ar lefelau cenedlaethol a lleol ac yn adolygu'r llenyddiaeth ar siarteri, cynlluniau achredu a dyfarniadau. Bydd y canfyddiadau'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, ac mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r rhain ar eu gwefan.

Dylai ein trafodaeth heddiw bara hyd at 1 awr a 15 munud, gan archwilio eich barn ar y canlynol:

- Cyd-destun cefndirol hawliau plant a chyfranogiad plant yng Nghymru
- Trefniadaeth cyfrifoldebau yn eich sefydliad
- Profiadau o weithredu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol
- Barn a phrofiadau o'r Nod Barcud a'r Siarter Cenedlaethol
- Blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer ymgorffori'r safonau a chodi ymwybyddiaeth o hawliau plant

Sut y bydd gwybodaeth yn cael ei defnyddio a'i storio

Bydd y wybodaeth yr ydych yn ei rhannu gyda ni yn cael ei defnyddio i lywio ein canfyddiadau, a fydd yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy adroddiadau.

Caniatâd i recordio: Gyda'ch caniatâd, hoffem recordio'r cyfweiliad/grŵp ffocws. Bydd y recordiad yn cael ei storio'n ddiogel a dim ond y tîm ymchwil fydd yn cael mynediad iddo, er mwyn darparu pwynt cyfeirio ychwanegol i fy nodiadau a chyfle i wirio yn ôl er mwyn cofnodi dyfyniadau yn llawn.

Natur wirfoddol cyfranogiad: Eich dewis chi yw cymryd rhan yn yr ymchwil hon ac os penderfynwch nad ydych chi eisiau cymryd rhan mwyach, rhowch wybod i dîm ymchwil Ecorys drwy e-bostio rheolwr y prosiect ymchwil, Gabriela Freitas (rhannwch y cyfeiriad e-bost canlynol: gabriela.freitas@ecorys.com).

Anhysbysrwydd: Bydd pob unigolyn sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil hwn yn aros yn anhysbys, sy'n golygu na fyddwch yn cael eich enwi na'ch adnabod fel arall mewn unrhyw adroddiadau a gyflwynir i Lywodraeth Cymru. Efallai y byddwn yn defnyddio dyfyniadau dienw yn yr adroddiadau a'r cyflwyniadau. Byddwn yn cymryd camau i wneud allbynnau'r adroddiadau'n ddienw, fel na ellir eich adnabod.

Cyfrinachedd: Dim ond y tîm ymchwil fydd yn gwybod beth rydych chi wedi'i ddweud. (Os ydych chi mewn grŵp ffocws – gofynnwch i bawb barchu anhysbysrwydd ei gilydd.)

Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei phrosesu gan Ecorys UK a'i bartneriaid o dan delerau Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr hysbysiad preifatrwydd a gawsoch pan drefnwyd y cyfweliad (dylai'r ymchwilydd ddarparu hwn os nad yw'r cyfranogwr wedi'i weld).

Cyd-destun cefndirol

1. A allwn ni ddechrau gyda throsolwg byr o'ch rôl(au) a'ch cefndir proffesiynol?
2. *Sut mae cyfrifoldebau dros hawliau plant a chyfranogiad plant wedi'u strwythuro o fewn eich sefydliad(au)? Archwiliwch y canlynol:
 - a. Pwy sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros hawliau plant yn eich sefydliad(au)?
 - b. Pa adran mae hawliau plant ynddi o fewn eich sefydliad(au)?
 - c. I ba raddau mae ffocws penodol ar gyfranogiad plant a phobl ifanc o fewn eich sefydliad(au) a/neu adran(nau)?
3. A fu newid yng nghyfrifoldebau eich sefydliad(au) mewn perthynas â hawliau plant a chyfranogiad plant a phobl ifanc?
 - a. Beth fu natur y newid?
 - b. Pa heriau a chyfleoedd y mae hyn wedi'u cyflwyno?
 - c. Sut mae eich sefydliad(au) wedi ymateb?

Bodloni'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol

4. O'ch safbwynt chi, pa mor glir a chydlynol yw'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol⁴?
[RN: cael dogfen un dudalen yr NPS yn barod i'w rhannu ar y sgrin os oes angen]]

⁴ Cyfeiriwch at ddogfen un dudalen yr NPS. Mae'r safonau'n ymwneud â: 1) Gwybodaeth, 2) Chia Biau'r Dewis, 3) Dim Gwahaniaethu, 4) Parch, 5) Bod Ar Eich Ennill, 6) Adborth a 7) Gweithio'n well drosodd chi.

5. Pa gamau ymarferol y mae eich sefydliad(au) wedi'u cymryd i sicrhau bod y Safonau'n cael eu cymhwyso? Pwy sydd wedi bod yn rhan o hyn a beth yw'r goblygiadau o ran adnoddau?
6. *Beth fu'r prif alluogwyr a'r rhwystrau i gyrraedd y Safonau? Archwiliwch:
 - a. A yw rhai gofynion a gyflwynir gan yr NPS yn fwy heriol i'w gweithredu neu'n anoddach i'w dangos nag eraill
 - b. Heriau sy'n deillio o ymgorffori ar draws y sefydliad (h.y. timau/grwpiau mwy arbenigol sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc yn hytrach na phrif ffrydio ar draws timau lle mae materion plant a phobl ifanc yn fwy ymhlyg, e.e. trafnidiaeth, tai)
7. I ba raddau mae'r Safonau'n hysbys ac yn cael eu deall yn eang ymhlith y gweithlu ar draws eich sefydliad(au)?
 - a. Pa gamau a gymerir i godi ymwybyddiaeth a gyda pha raddau o lwyddiant?
8. *Pa fathau o fonitro neu adborth ydych chi'n eu casglu, i asesu cynnydd gyda gweithredu'r Safonau?
9. *I ba raddau ydych chi wedi gweld manteision i'r gweithlu ac i blant a phobl ifanc o ganlyniad i fodloni'r Safonau?
 - a. A oes tystiolaeth eu bod yn cefnogi plant a phobl ifanc i gael eu clywed a chael dweud eu dweud mewn materion sy'n effeithio arnynt, o fewn eich sefydliad?
 - b. Oes gennych chi unrhyw enghreifftiau ymarferol i ddangos hyn?
10. *I ba raddau y mae arferion da a dysgu sy'n ymwneud â'r Safonau yn cael eu rhannu â sefydliadau eraill yng Nghymru ar hyn o bryd?
 - a. Beth fu'r manteision?
 - b. Beth arall, os o gwbl, fyddai o gymorth?

Cynlluniau'r Siarter Genedlaethol a'r Nod Barcud

Barn gyffredinol ar gynlluniau'r Siarter a'r Nod Barcud

11. *Hoffem nawr drafod y Siarter a'r Nod Barcud yn fanylach. A allech chi ddweud wrthyf pa mor gyfarwydd ydych chi â'r Siarter a'r Nod Barcud os gwelwch yn dda?

[os nad yw'r cyfranogwr yn gyfarwydd, esboniwch]: Gall sefydliadau ymuno â'r Siarter yn wirfoddol i ddangos eu hymrwymiad i'r NPS dros gyfnod o 2 flynedd. Yna gallant ail-ymgeisio i'r Siarter, neu gallant wneud cais i'r Nod Barcud. Mae hwn yn ddyfarniad sy'n cydnabod llwyddiant sefydliadau i weithredu'r 7 Safon, sy'n cynnwys proses hunanasesu ac asesiad gan Arolygwyr Ifanc.

Mae fy set gyntaf o gwestiynau yn canolbwyntio ar y Siarter:

12. Beth yw eich barn gyffredinol ar werth y Siarter, fel ffordd o ddangos ymrwymiad i gyrraedd y Safonau a gweithio tuag at y Nod Barcud?
13. I ba raddau mae gofynion presennol y Siarter yn briodol ac yn gymesur â'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i'w bodloni?

[RN: mae proses y Siarter yn cynnwys darparu datganiad ysgrifenedig o fwriad i weithio yn unol â'r NPS cenedlaethol am 2 flynedd. Unwaith y bydd y Siarter wedi'i llofnodi, bydd y sefydliadau neu'r gwasanaethau'n cael eu rhestru ar wefan Plant yng Nghymru a Chymru Ifanc, a gellir arddangos y Siarter ar draws eu cyfleusterau]

14. *Beth yw'r prif ffactorau o blaid ac yn erbyn i sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n dymuno cofrestru ar gyfer Siarter yr NPS?

Mae fy set nesaf o gwestiynau yn canolbwyntio ar y Nod Barcud:

15. Beth yw eich barn gyffredinol ar werth cael dyfarniad Nod Barcud Cenedlaethol, fel ffordd o ddilysu a dathlu gwaith awdurdodau cyhoeddus sy'n bodloni'r Safonau?
16. I ba raddau mae'r gofynion presennol ar gyfer y Nod Barcud Cenedlaethol yn briodol ac yn gymesur â'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i'w bodloni?

[RN: Mae hyn yn cynnwys hunanasesiad lle mae'n rhaid i sefydliadau ddarparu tystiolaeth i ddangos eu bod wedi cyflawni pob un o'r 7 Safon. Unwaith y bydd hwn wedi'i gyflwyno, cynhelir archwiliad gan dîm o Arolygwyr Ifanc.]

17. *Beth yw'r prif ffactorau o blaid ac yn erbyn i sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n dymuno cofrestru ar gyfer statws Nod Barcud?

Nawr, gan feddwl am y Siarter a'r Nod Barcud:

18. *I ba raddau y mae ymdrechion i weithredu a hyrwyddo'r NPS / Siarter / Nod Barcud wedi ystyried anghenion plant a phobl ifanc o wahanol oeddrannau, anghenion ac amgylchiadau? Archwiliwch:

- a. A yw sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gynhwysol o ran rhywedd yn eu dull gweithredu?
- b. Sut, er enghraifft, mae ymdrechion cyfranogiad lleol yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc: sydd â phrofiad o ofal? sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?
- c. A oes unrhyw enghreifftiau o arferion da i'w rhannu?

Profiadau o gymryd rhan yn y cynlluniau

[RN: Noder bod y cwestiynau yn yr adran hon yn seiliedig ar ymwneud sefydliadau'r sector cyhoeddus â'r Siarter, y Nod Barcud a'r rhai nad ydynt wedi cymryd rhan o gwbl.]

Gofynnwch gwestiynau yn yr is-adrannau yn unig sy'n berthnasol i'r sefydliadau rydych chi'n eu cyfweld.]

Ar gyfer sefydliadau sydd wedi meddu ar statws Siarter

19. Sut a phryd y gwnaeth eich sefydliad(au) ystyried ymuno â'r Siarter?
 - a. Beth a ysgogodd fwrw ymlaen â'r penderfyniad?
 - b. Beth oeddech chi'n anelu at ei gyflawni?
20. Pa mor hawdd neu anodd oedd y broses o gofrestru ar gyfer y Siarter?
 - a. Pa agweddau a weithiodd yn dda?
 - b. Beth, os o gwbl, y gellid ei wella?
21. Beth fu manteision dilynol statws Siarter i'r sefydliad(au)?
 - a. Allwch chi roi unrhyw enghreifftiau?
22. Pa lefelau o ymwybyddiaeth sydd ymhlith y gweithlu o'r Siarter?
23. Sut ydych chi'n defnyddio eich statws Siarter yn eich gwaith?
24. Pa ffactorau effeithiodd ar eich penderfyniad i adnewyddu (neu beidio) statws y Siarter?
 - a. Pam wnaethoch chi / na wnaethoch chi ddewis ail-ymgeisio?
 - b. [Os na wnaethon nhw ail-ymgeisio] Beth, os o gwbl, fyddai'n mynd i'r afael â'ch pryderon ac yn eich annog i ailystyried cais?
25. *Pa drefniadau monitro sydd ar waith i sicrhau bod eich sefydliad(au) yn cynnal ei statws Siarter?
26. *A wnaeth eich sefydliad(au) symud ymlaen i wneud cais am statws Nod Barcud? Pa ffactorau effeithiodd ar eich penderfyniad i fynd ymlaen i wneud cais am ddyfarniad y Nod Barcud?
 - a. Pam wnaethoch chi / na wnaethoch chi ddewis gwneud cais?
 - b. [Os na wnaethon nhw wneud cais] Beth, os o gwbl, fyddai'n mynd i'r afael â'ch pryderon ac yn eich annog i ailystyried cais am y Nod Barcud?

Ar gyfer sefydliadau sydd wedi meddu ar statws Nod Barcud

27. *Sut a phryd y gwnaeth eich sefydliad(au) ystyried cais am statws Nod Barcud? [RN: os gofynnwyd eisoes fel rhan o C26 yna hepgorwch]
 - a. Beth a ysgogodd fwrw ymlaen â'r penderfyniad?

b. Beth oeddech chi'n anelu at ei gyflawni?

28. Pa mor hawdd neu anodd oedd y broses o gael y Nod Barcud?

a. Pa agweddau a weithiodd yn dda?

b. Beth, os o gwbl, y gellid ei wella?

c. Archwiliwch mewn perthynas â:

i. Gofynion tystiolaeth

ii. Prosesau asesu ac arolygu

iii. Ymgysylltu ag Arolygwyr Ifanc

iv. Adborth ar arolygiadau a sut y cafodd hyn ei drin

v. Cefnogaeth gan staff ar draws eich sefydliad

29. *Beth fu manteision dilynol statws Nod Barcud Siarter ar gyfer eich sefydliad(au)?

a. I ba raddau y cefnogodd y Nod Barcud weithredu'r Safonau yn ymarferol?

b. A oes unrhyw fanteision annisgwyl wedi bod i statws Nod Barcud i'ch sefydliad(au)?

c. Allwch chi roi unrhyw enghreifftiau, gan gynnwys ar gyfer:

i. Plant a phobl ifanc (ar draws gwahanol oedrannau a nodweddion)

ii. Staff a rheolwyr rheng flaen

iii. Swyddogion strategol

iv. Y sefydliad ehangach a/neu'r gymuned

30. Pa lefelau o ymwybyddiaeth sydd ymhlith y gweithlu o'r Nod Barcud?

31. Sut ydych chi'n defnyddio eich statws Nod Barcud yn eich gwaith?

32. Pa drefniadau monitro sydd ar waith i sicrhau bod eich sefydliad(au) yn cynnal cydymffurfiaeth â'r safonau er mwyn sicrhau bod eich statws Nod Barcud yn cael ei gynnal?

Ar gyfer sefydliadau nad oes ganddynt statws Siarter na Nod Barcud

33. *Pa ffactorau effeithiodd ar eich penderfyniad i beidio â gwneud cais am y cynllun Siarter neu Nod Barcud?

34. *Beth, os o gwbl, fyddai'n mynd i'r afael â'ch pryderon ac yn eich annog i ailystyried cais yn y dyfodol?

Offer a dulliau eraill

35. *Pa offer neu ddulliau eraill a ddefnyddir yn eich sefydliad(au) i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant ac i ymgorffori cyfranogiad plant yn unol â'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol? Archwiliwch yr is-gwestiynau canlynol:
- a. Sut a phryd y cyflwynwyd y rhain, a beth oedd y cyd-destun?
 - b. Beth fu'r prif fanteision ac anfanteision o'u defnyddio?
 - c. Pa mor effeithiol ydyn nhw wedi bod, gan gynnwys ar gyfer:
 - i. Plant a phobl ifanc (ar draws gwahanol oedrannau a nodweddion)
 - ii. Staff a rheolwyr rheng flaen
 - iii. Swyddogion strategol
 - iv. Y sefydliad ehangach a/neu'r gymuned
 - v. Allwch chi roi rhai enghreifftiau ymarferol?

Datblygu polisi yn y dyfodol

36. *Yn eich barn chi, pa fath o gefnogaeth sydd fwyaf ei hangen ar lefel genedlaethol i'ch cefnogi i fodloni'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol?
37. *I ba raddau hoffech chi weld parhad Siarter Genedlaethol a/neu gynllun Nod Barcud, fel ffordd o gefnogi gweithredu'r Safonau?
38. *Pa agweddau ar y cynlluniau hyn fyddai'n well eu cydlynu ar lefel genedlaethol, a pha rai y dylid eu cydlynu'n lleol?
- a. Beth yw manteision ac anfanteision dulliau cenedlaethol yn erbyn dulliau lleol?
39. *Pa welliannau, os o gwbl, hoffech chi eu gweld i'r Siarter, i wella ei gwerth fel ffordd o annog a dangos ymrwymiad i'r Safonau?
40. *Pa welliannau, os o gwbl, hoffech chi eu gweld i'r Nod Barcud Cenedlaethol a'r prosesau ar gyfer ei gyflawni, i hyrwyddo defnydd ehangach ac i wella ei gyrhaeddiad a'i effeithiolrwydd?
41. *Pa offer neu fesurau amgen, os o gwbl, y dylid eu hystyried yn y dyfodol, i gefnogi gweithredu'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol?
- a. Os felly, beth ydyn nhw a sut / pam y byddai'r rhain yn well?

Dod i ben

42. Oedd yna unrhyw beth arall yr hoffech chi ei rannu nad ydym wedi sôn amdano yn ystod y cyfweiliad?

Diolchwch i'r cyfranogwr, esboniwch y camau nesaf a dewch â'r cyfweiliad i ben.

Atodiad E: Llyfryddiaeth

Bernier, L., Hafsi, T. a Deschamps, C. (2015) Environmental Determinants of Public Sector Innovation: A study of innovation awards in Canada. *Public Management Review*, 17(6), pp. 834–856. doi: 10.1080/14719037.2013.867066.

Boeve-de Pauw, J. a Van Petegem, P. (2018) Eco-school evaluation beyond labels: the impact of environmental policy, didactics and nature at school on student outcomes. *Environmental Education Research*, 24(9), pp. 1250–1267. doi: 10.1080/13504622.2017.1307327.

Bragg, S. a Manchester, H. (2011) Doing it differently: youth leadership and the arts in a creative learning programme. *UNESCO Observatory: Journal of Multi-Disciplinary Research in the Arts*, 2(2). Ar gael yn: https://oro.open.ac.uk/31108/1/UNESCO_BRAGG081211.pdf (Cyrchwyd: 11 Awst 2025)

Burley, D. (2025) Dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol: anghenion tystiolaethol heb eu diwallu. *Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol* Rhif 55/2025. <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2025-06/dull-ysgol-gyfan-ar-gyfer-llesiant-emosiynol-a-meddyliol-anghenion-tystiolaethol-heb-eu-diwallu-371.pdf> (Cyrchwyd: 11 Awst 2025).

Byrne, M., Sterritt, H., Kilbride, K., Mann, J., Morgan, N., Lynn, S. a Wise, C. (2023) Adolygiad o Raglen Addysg Amgylcheddol Eco-Sgolion yng Nghymru (2018–2022). *Caerdydd: Llywodraeth Cymru*. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2023-05/adolygiad-o-raglen-addysg-amgylcheddol-eco-sgolion-yng-nghymru-2018-2022.pdf> (Cyrchwyd: 11 Awst 2025).

Comisiynydd Plant Cymru (2022) Troi Uchelgais yn Weithredu: adroddiad cynyddool. *Comisiynydd Plant Cymru* Ar gael yn: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/03/AmbitionToAction_CYM.pdf (Cyrchwyd: 11 Awst 2025).

Davis, J., Hill, L., Tisdall, E.K.M., Cairns, L. a McCausland, S. (2014) Social Justice, The Common Weal and Children and Young People in Scotland. *The Jimmy Reid Foundation, March 2014*. Ar gael yn: <https://www.pure.ed.ac.uk/ws/portalfiles/portal/18457053/Childhood1.pdf> (Cyrchwyd: 11 Awst 2025).

Department of Children and Youth Affairs (2015) National Strategy on Children and Young People's Participation in Decision Making 2015–2020. *Dublin: Government Publications*. Ar gael yn: <https://assets.gov.ie/static/documents/national-strategy-on-children-and-young-peoples-participation-in-decision-making-2015-.pdf> (Cyrchwyd: 11 Awst 2025).

Duggan, B., Lewis, S. a Glyn, E. (2020) Gwerthusiad o'r Siarter Iaith a rhaglenni cysylltiedig. *Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol* Rhif 43/2020. Ar gael yn:

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-07/gwerthusiad-or-siarter-iaith-a-rhaglenni-cysylltiedig.pdf> (Cyrchwyd: 11 Awst 2025)

Cyngor y Gweithlu Addysg (2024) Gwerthusiad o'r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuencid yng Nghymru 2021–2024. *Caerdydd: Cyngor y Gweithlu Addysg Ar gael yn:* <https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/documents-cym/accreditation/quality-mark/1128-youth-work-quality-mark-evaluation-2021-2024> (Cyrchwyd: 11 Awst 2025).

Hartley, J. a Downe, J. (2007) The shining lights? Public service awards as an approach to service improvement. *Public Administration*, 85(2), pp 329–353.

Mesie, J. (2018) A Better Relationship with Learning: an evaluation of the Young Carers in Schools Programme. *London: Coram*. Ar gael yn: <https://www.coram.org.uk/wp-content/uploads/2023/01/Carers-Trust-evaluation-report.pdf> (Cyrchwyd: 11 Awst 2025).

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2024) Adroddiad Ansawdd ac Effaith – Rhaglen Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hybu Iechyd a Lles (WNHWPS). Cyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, 24 Gorffennaf 2024. *Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar gael yn:* <https://publichealthwales.nhs.wales/about-us/board-and-executive-team/board-committees/committee-meetings/quality-safety-and-improvement-committee/202425/24-july-2024/papers-24-july-2024/3a-qsic-2024-07-24-wnhwps-report/> (Cyrchwyd: 11 Awst 2025)

Quennerstedt, A. (2022) UNICEF'S Rights Respecting Schools Award as children's human rights education. *Human Rights Education Review*, 5(3), pp. 68–90. doi: 10.7577/hrer.4761.

Radnor, Z. (2009) Understanding the relationship between a national award scheme and performance. *International Review of Administrative Sciences*, 75(3), pp. 437–457. doi: 10.1177/0020852309337689.

Rosenblatt, M. (2011) The use of innovation awards in the public sector: Individual and organizational perspectives. *Innovation: Management, Policy & Practice*, 13(2), 207–219. doi: <https://doi.org/10.5172/impp.2011.13.2.207>.

Rothwell, H., Burgess, S., Townsend, N., Pimm, C., Shepherd, M. a Murphy, S. (2009) Adolgyiad o Rwydwaith Ysgolion Iach Cymru, 2007–2008: Papur Gwaith Rhif. 13; 2015. *Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn:* <https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/20517/1/wp138.pdf> (Cyrchwyd: 11 Awst 2025).

Sebba, J. a Robinson, C. (2010) Evaluation of UNICEF UK's Rights Respecting Schools Award: Final report, September 2010. *London: UNICEF UK*. Ar gael yn: https://www.unicef.org.uk/rights-respecting-schools/wp-content/uploads/sites/4/2014/12/RRSA_Evaluation_Report.pdf (Cyrchwyd: 11 Awst 2025)

Tien, Y. H. (2012) How to Promote the Service Quality of the Public Sector by Award Mechanism? A study on the National Awards for Local Government in Australia. *Creative Education*, 3 (Supplement), pp. 29–32. DOI: 10.4236/ce.2012.37B007.

Watkins, J. a Beschel, R. (2010) Public Sector Awards Programs: survey of selected international experience. *Washington, DC: The World Bank*. Ar gael yn: <https://documents1.worldbank.org/curated/en/763981468339578996/pdf/567500BRI0Box31etaryPSAwardPrograms.pdf> (Cyrchwyd: 11 Awst 2025).